

# Agenda – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

---

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:  
Fideogynadledda drwy Zoom P Gareth Williams  
Dyddiad: Dydd Llun, 22 Ebrill 2024 Clerc y Pwyllgor  
Amser: 13.30 0300 200 6565  
[SeneddDCC@senedd.cymru](mailto:SeneddDCC@senedd.cymru)

## O bell

---

- 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau  
(13.30)
- 2 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r  
Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3  
(13.30 – 13.35)

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol

- 2.1 SL(6)474 – Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2024

(Tudalennau 1 – 9)

[Gorchymyn](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-24 – Papur 1 – Adroddiad drafft

LJC(6)-12-24 – Papur 2 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a

Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, at y Llywydd, 19 Mawrth 2024

- 2.2 SL(6)477 – Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 5 a  
Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2024

(Tudalennau 10 – 11)

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:



**Senedd Cymru**  
**Welsh Parliament**

LJC(6)-12-24 – Papur 3 – Adroddiad drafft

### **2.3 SL(6)478 – Rheoliadau Paratoadau Cig (Cymru) (Diwygio) 2024**

(Tudalennau 12 – 16)

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-12-24 – Papur 4 – Adroddiad drafft

LJC(6)-12-24 – Papur 5 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Llywydd, 12 Ebrill 2024

## **3 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol**

(13.35 – 13.40)

### **3.1 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Diwygiadau Amrywiol) 2024**

(Tudalennau 17 – 18)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)12-24 – Papur 6 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 18 Ebrill 2024

## **4 Papurau i'w nodi**

(13.40 – 13.45)

### **4.1 Gohebiaeth gan Sam Rowlands AS: Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)**

(Tudalennau 19 – 40)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-12-24 – Papur 7 – Llythyr gan Sam Rowlands AS, 15 Ebrill 2024

LJC(6)-12-24 – Papur 8 – Llythyr gan Sam Rowlands AS at y Pwyllgor Cyllid, 15 Ebrill 2024 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-12-24 – Papur 9 – Llythyr gan Sam Rowlands AS at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 15 Ebrill 2024

**4.2 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y Llywydd: Y Bil Tybaco a Fêps**

(Tudalen 41)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-12-24 – Papur 10 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y Llywydd, 16 Ebrill 2024

**4.3 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg i'r Llywydd: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), ar gyfer y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol**

(Tudalennau 42 – 51)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-12-24 – Papur 11 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, 16 Ebrill 2024

**5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**

(13.45)

**6 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig: Adroddiad drafft**

(13.45 – 13.55)

(Tudalennau 52 – 58)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-12-24 – Papur 12 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

**7 Ymchwiliad Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi: Llywodraethu'r Undeb: Ymgynghori, Cydweithredu a Chydsyniad Deddfwriaethol – Trafod cyflwyniad drafft**

(13.55 – 14.05)

(Tudalennau 59 – 69)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-12-24 – Papur 13 – Cyflwyniad drafft [Saesneg yn unig]

## **8 Adroddiad monitro**

(14.05 – 14.15)

(Tudalennau 70 – 87)

### **Dogfennau atodol:**

LJC(6)-12-24 – Papur 14 – Adroddiad monitro [Saesneg yn unig]

## **9 Cywiriadau i Offerynnau Statudol Cymru**

(14.15 – 14.20)

(Tudalennau 88 – 90)

### **Dogfennau atodol:**

LJC(6)-12-24 – Papur 15 – Llythyr drafft [Saesneg yn unig]

## **10 Is-ddeddfwriaeth a osodwyd yn Saesneg yn unig**

(14.20 – 14.25)

(Tudalennau 91 – 92)

### **Dogfennau atodol:**

LJC(6)-12-24 – Papur 16 – Llythyr drafft [Saesneg yn unig]

## SL(6)474 – Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2024

### Cefndir a Diben

Mae Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2024 yn gwneud darpariaeth ynghylch y cyfraddau tâl isaf a thelerau ac amodau cyflogaeth eraill ar gyfer gweithwyr amaethyddol.

Mae'n dirymu ac yn disodli Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2023 gyda newidiadau sy'n cynnwys cynyddu'r cyfraddau tâl isaf fesul awr ar gyfer gweithwyr amaethyddol.

Mae Rhan 2 o'r Gorchymyn yn darparu bod gweithwyr amaethyddol i gael eu cyflogi yn ddarostyngedig i'r telerau a'r amodau sydd wedi eu nodi yn Rhannau 2 i 5 o'r Gorchymyn ac yn pennu'r graddau a'r categorïau gwahanol o weithiwr amaethyddol.

Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch:

- cyfraddau tâl isaf;
- lwfans gwrthbwysio llety;
- lwfans cŵn;
- lwfans ar alwad;
- lwfans gwaith nos; a
- grantiau geni a mabwysiadu.

Mae Rhan 4 yn darparu ar gyfer hawl i gael tâl salwch amaethyddol o dan amgylchiadau sydd wedi eu pennu.

Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth ynghylch hawl gweithiwr amaethyddol i gael amser i ffwrdd, gan gynnwys seibiannau gorffwys, gorffwys dyddiol a chyfnod gorffwys wythnosol. Mae darpariaeth yn cael ei gwneud hefyd ynghylch blwyddyn gwyliau blynyddol gweithiwr amaethyddol a'i hawl i gael gwyliau blynyddol, tâl gwyliau a thaliad yn lle gwyliau blynyddol. Mae'r Rhan hon hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch hawl gweithiwr amaethyddol i gael absenoldeb â thâl oherwydd profedigaeth.

Mae Rhan 6 yn cynnwys dirymiad a darpariaeth drosiannol.

### Y weithdrefn

Negyddol.



Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd.

Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

## **Materion technegol: craffu**

Nodwyd y 18 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### **1. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn y Tabl Cynnwys, mae'r cofnodion ar gyfer erthyglau 5 i 9 (sy'n ymwneud â'r graddau gwahanol o weithiwr amaethyddol) yn wahanol i'r penawdau a geir uwchben yr erthyglau hyn yn y Gorchymyn.

### **2. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn erthygl 2(1), nid yw'r diffiniadau a ganlyn wedi eu rhestru yn y lle cywir yn nhrefn yr wyddor yn nhestunau Cymraeg a Saesneg y Gorchymyn hwn—

- a) yn y testun Saesneg, dylai "agriculture" fod wedi'i restru ar ôl "agricultural worker" a dylai "the national minimum wage" fod wedi'i restru ar ôl "hours";
- b) yn y testun Cymraeg, dylai "cyflogaeth" fod wedi'i restru ar ôl "cyflog wythnosol arferol".

Yn hyn o beth, mae'r fannod yn cael ei hanwybyddu wrth drefnu'r diffiniadau (gweler Drafftio Deddfau i Gymru, 4.15(1) a (2)).

Yn yr un modd, yn erthygl 22(4), nid yw'r diffiniadau o "diwrnodau cymwys" ac "oriau cymwys" wedi'u rhestru yn nhrefn yr wyddor yn y ddarpariaeth ddehongli. Yn ogystal, dylai'r termau cyfatebol yn yr iaith arall gael eu cynnwys mewn cromfachau ac mewn llythrennau italig ar ôl y diffiniadau. Yn olaf, ni ddylid cynnwys y cysylltair "a" rhwng y diffiniadau yn y rhestr.

### **3. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn erthygl 2(1), mae'r termau "ar alwad", "cyflog wythnosol arferol", "grant geni a mabwysiadu", "gwaith allbwn" a "gwaith nos" i gyd wedi'u diffinio fel pe bai iddynt ystyr ar gyfer y Gorchymyn hwn. Ond dim ond mewn un erthygl yn y Gorchymyn y defnyddir pob un o'r termau hyn. Felly, dylai'r termau hynny fod wedi'u diffinio mewn darpariaeth ddehongli yn yr erthygl y'u defnyddir ynddi.



**4. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn erthygl 2(1), yn y diffiniad o "plentyn", defnyddir yr ymadrodd "bydd" pan ymddengys fod datganiad datganiadol yn cael ei wneud ynghylch ystyr y term hwnnw – "Bydd plentyn yn blentyn gweithiwr amaethyddol os...". Ond mae canllawiau drafftio Llywodraeth Cymru yn dweud y dylai deddfwriaeth osgoi defnyddio "bydd" ar gyfer datganiadau datganiadol ac y dylid defnyddio'r mynegol presennol mewn datganiadau o'r fath (gweler Drafftio Deddfau i Gymru, 3.14(5)).

**5. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn erthygl 2(1), yn y diffiniad o "cyflogaeth", nid oes angen dweud y dylid dehongli "a gyflogir" a "cyflogwr" yn unol â hynny, oherwydd effaith adran 9 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

Hefyd yn erthygl 2(1) mae diffiniad o "isafswm cyflog cenedlaethol" ar gyfer y Gorchymyn hwn. Fodd bynnag, ni ddefnyddir y term hwn yn y Gorchymyn hwn heblaw yn nheithl Deddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998. Felly, nid yw'n ymddangos bod unrhyw ddiben i'r diffiniad hwn.

Yn yr un modd, yn erthygl 2(1), mae diffiniad o "amser gweithio"—

- a) ni ddefnyddir y term hwn yn y Gorchymyn heblaw yn nheithl Rheoliadau Amser Gweithio 1998. Felly, nid yw'n ymddangos bod unrhyw ddiben i'r diffiniad;
- b) nid oes angen dweud y dylid dehongli "gwaith" yn unol â hynny, oherwydd effaith adran 9 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. Efallai y dylid diffinio "gwaith" ar wahân os oes angen gwneud hynny ar gyfer y Gorchymyn hwn, a hepgor y diffiniad o "amser gweithio";
- c) mae gwahaniaeth bach rhwng testun Cymraeg a thestun Saesneg y diffiniad hwn. Ar ddechrau paragraff (a), yn y testun Cymraeg, mae "any **time**" wedi'i gyfieithu gan ddefnyddio'r un ymadrodd ag a ddefnyddir ar gyfer "any **period**" ar ddechrau paragraff (b), sef "unrhyw **gyfnod**". Mae hefyd yn golygu bod y gair "time" wedi'i gyfieithu'n wahanol yn yr ymadrodd "unrhyw **gyfnod**" o gymharu â'r geiriau "ond nad yw'n cynnwys **amser** a dreulir..." sy'n dod wedyn ym mharagraff (a) o'r diffiniad hwnnw.

**6. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn erthygl 2(1), mae'r term "diwrnodau cymwys" wedi'i ddiffinio, ac mae ystyr wedi'i roi iddo yn y Gorchymyn hwn. Fodd bynnag, mae'r term hwn hefyd wedi'i ddiffinio ag ystyr gwahanol yn erthygl 22(4) at ddibenion yr erthygl honno yn unig. Felly, dylai fod cofnod yn y diffiniad o



“diwrnodau cymwys” yn erthygl 2(1) sy’n dweud “ac eithrio yn erthygl 22”, er mwyn esbonio wrth y darlennydd ble y mae’r diffiniad yn gymwys yn y Gorchymyn.

#### **7. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â’i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae erthygl 14 yn cyfeirio at weithwyr amaethyddol a gyflogwyd cyn 22 Ebrill 2022, sef y dyddiad y daeth Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2022 (O.S. 2022/417 (Cy. 102)) i rym. Dyma’r dyddiad y daeth y cyntaf o ddau Orchymyn Cyflogau Amaethyddol a wnaed yn 2022 i rym o ran Cymru. Fodd bynnag, a ddylid diweddarau’r ddarpariaeth hon i gyfeirio at y Tabl yn Atodlen 1 i Orchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2023 (O.S. 2023/260 (Cy. 37)) neu a yw’n gywir? (Yn ogystal, yn y testun Saesneg, dylai ddweud “Schedule 1 to” yn hytrach nag “of” mewn perthynas â Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2022.)

#### **8. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio’r offeryn neu’r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn erthygl 16(b), yn y testun Saesneg, defnyddir yr ymadrodd “cannot” wrth osod gwaharddiad. Ond yr ymadrodd “must not” yw’r ymadrodd a argymhellir wrth osod gwaharddiad (gweler Drafftio Deddfau i Gymru, 3.13(4)).

#### **9. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio’r offeryn neu’r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn erthygl 21(1), defnyddir yr ymadrodd “ni fydd” (“will not”) yn y ddarpariaeth, ond mae canllawiau drafftio Llywodraeth Cymru yn dweud y dylid osgoi defnyddio “bydd” (“will”) wrth wneud datganiadau – gweler Drafftio Deddfau i Gymru, 3.14(5). Hefyd, yn nhestun Saesneg erthygl 38(2)(b) o’r Gorchymyn hwn, defnyddir yr ymadrodd “will” pan allai’r geiriau “is to” fod yn fwy priodol.

#### **10. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â’i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Nid yw’n glir o dan ba amgylchiadau y gallai erthygl 22(5) fod yn gymwys. Mae’r erthygl hon yn gwneud darpariaeth i ganiatáu cyfrifo symiau tâl salwch amaethyddol “pan fo gweithiwr amaethyddol wedi ei gyflogi gan ei gyflogwr am lai nag 8 wythnos”. Fodd bynnag, mae erthygl 19(a) yn darparu na fydd gweithiwr amaethyddol ond yn cymhwyso ar gyfer tâl salwch amaethyddol o dan y Gorchymyn hwn os yw, ymhlith pethau eraill, “wedi cael ei gyflogi’n ddi-dor gan ei gyflogwr am gyfnod o 52 o wythnosau o leiaf cyn yr absenoldeb salwch”.

Os nad oes unrhyw amgylchiadau pan fyddai erthygl 22(5) yn gymwys, mae’r ddarpariaeth hon yn ddiangen, gan na fyddai angen darparu mecanwaith ar gyfer cyfrifo’r taliad hwn gan na fyddai gan neb hawl i’w gael.

Mae erthygl 19(a), o’i darllen ar ei phen ei hun, yn darparu maen prawf cymhwyso clir, ond gallai presenoldeb 22(5) o dan yr amgylchiadau hyn gamarwain darllenwyr i gredu y gallai





gweithwyr sydd â llai na 52 wythnos o wasanaeth fod yn gymwys i gael taliad, oherwydd bod mecanwaith i gyfrifo taliad o'r fath.

#### **11. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Yn erthygl 25(1), yn y testun Cymraeg, gellid dehongli'r cyfieithiad fel un sy'n cyfyngu'r ymadrodd "yn ystod cyfnod o absenoldeb salwch" i'r geiriau "os terfynir naill ai contract gweithiwr amaethyddol neu ei brentisiaeth". Felly, byddai'r testun Cymraeg yn gliriach pe bai'r ymadrodd "yn ystod cyfnod o absenoldeb salwch" yn cael ei ailadrodd ar ôl y geiriau "neu os rhoddir hysbysiad i'r gweithiwr amaethyddol fod naill ai ei gontract neu ei brentisiaeth i gael ei derfynu neu ei therfynu".

#### **12. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn erthygl 26(1), mae'r ddarpariaeth yn dweud y "**gall** ei gyflogwr adennill gordaliad". Ond nid yw'n ymddangos bod defnyddio "gall" yn briodol oherwydd bod y ddarpariaeth yn rhoi pŵer cyfreithiol yn ôl disgrisiwn i wneud rhywbeth yn hytrach na chyfeirio at bosibilrwydd. Gan hynny, "caiff" yw'r term y dylid ei ddefnyddio yn y cyd-destun hwn – gweler Drafftio Deddfau i Gymru, 3.13(3). Mae darpariaeth arall hefyd yn nhestun Saesneg erthygl 38(2)(a) lle'r ymddengys y byddai "may" yn hytrach na "can" yn fwy priodol yn y geiriau "worker **can** receive a payment".

#### **13. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Yn erthygl 26(2), mae gwahaniaeth bach rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Ar ddiwedd y frawddeg yn y testun Saesneg, mae'n cyfeirio at "payment of **the agricultural worker's** final wages" ond mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at "daliad cyflog olaf y **gweithiwr**". Mae'r un gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg yn digwydd mewn perthynas â'r term "gweithiwr amaethyddol" a "gweithiwr" ar ddiwedd erthygl 43(2). Yn hyn o beth, mae "gweithiwr amaethyddol" yn derm sydd wedi'i ddifinio yn y Gorchymyn hwn. Ond mae'r testun Saesneg hefyd braidd yn anghyson yn hyn o beth, oherwydd mewn rhai erthyglau eraill defnyddir yr ymadrodd "the worker" ar ôl cyfeiriad cyntaf at "the agricultural worker" (gweler erthyglau 15(2), 19(c), 27(2)(b), 35(4) a 35(5)).

#### **14. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn erthygl 41(2), mae strwythur y ddarpariaeth yn anghywir oherwydd bod is-baragraff (a) ond nad oes is-baragraffau dilynol. Felly, dylai erthygl 41(2) fod wedi'i strwythuro fel un frawddeg heb unrhyw is-baragraffau. Dylai'r wybodaeth a geir yn is-baragraff (a) fod wedi'i hymgorffori yn y frawddeg honno.

#### **15. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**



Yn erthygl 42(5), mae'n dweud, "pan fo'r **erthygl hon** yn gymwys", y dylid defnyddio fformwla a geir yn y ddarpariaeth honno i gyfrifo swm yr absenoldeb oherwydd profedigaeth. Ond ymddengys fod hyn yn anghywir oherwydd dylai ddweud "pan fo'r **paragraff hwn** yn gymwys" os nad yw ond yn cyfeirio at amgylchiadau pan fo paragraff (5) yn gymwys. O ran hyn, mae fformwla arall ym mharagraff (3) o erthygl 42, ac nid yw'r ddarpariaeth honno'n cynnwys y geiriau "pan fo'r erthygl hon yn gymwys" yn y man cyfatebol.

#### **16. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn erthygl 43(1), yn y testun Saesneg, defnyddir y term "shall" yn y geiriau "the agricultural worker **shall** be entitled to an amount...". Fodd bynnag, mae canllawiau drafftio Llywodraeth Cymru yn dweud na ddylid defnyddio "shall" mewn deddfwriaeth ac eithrio wrth ddiwygio deddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli oherwydd y gall yr ystyr fod yn amwys - gweler Drafftio Deddfau i Gymru, 3.14(1). Byddai wedi bod yn fwy cyson â gweddill y ddarpariaeth pe byddid wedi defnyddio ymadrodd megis "is [to be]".

Yn ogystal, yn erthygl 43(2), mae cyfeiriad a ddisgrifir yn anghywir fel "yn unol ag **erthygl 43(1)**". Ond, er cywirdeb, dylai ddweud "yn unol â **paragraff (1)**" gan ei fod yn cyfeirio at baragraff arall yn yr un erthygl.

#### **17. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn Atodlenni 1, 2 a 4, yn y nodiadau cwr tudalen, mae erthyglau eraill yn y Gorchymyn hwn sy'n cyfeirio at y priod Atodlenni hynny nad ydynt wedi'u cynnwys yn y nodiadau hynny. Felly, mae'n ymddangos bod y nodiadau cwr tudalen yn anghyflawn ar gyfer yr Atodlenni hynny.

#### **18. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Yn Atodlen 4, yn y Tabl, yn y drydedd golofn o dan y pennawd "Gogledd Iwerddon", yn y rhes waelod, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at "Higher **Level** Apprenticeship" ar Lefel 4, ond mae'r Gymraeg yn dweud "Prentisiaeth Uwch" ar Lefel 4. Credwn mai'r testun Saesneg sy'n gywir gan fod "Higher Level Apprenticeship" neu "HLA" yn gymhwyster yng Ngogledd Iwerddon sy'n wahanol i "Higher Apprenticeship".

Yn ogystal, yn Atodlen 4, a ddylid newid y pennawd presennol "Tabl" i "Tabl 1" a chynnwys pennawd arall, sef "Tabl 2", ar gyfer y tabl sy'n dod wedyn, sef "Cymwysterau cyfatebol o dan y Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd ('FfCE')", yn yr Atodlen honno?

## **Rhinweddau: craffu**



Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

### **19. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Daeth y Gorchymyn i rym ar 1 Ebrill 2024, lai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod ar 19 Mawrth 2024. Mewn llythyr dyddiedig 19 Mawrth 2024 at y Llywydd, dywedodd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ar y pryd, Lesley Griffiths AS:

*"Cymerwyd mwy o amser na'r disgwyl i gwblhau Gorchymyn 2024 gan fod yn rhaid wrth graffu cyfreithiol hir ar y newidiadau i'w symleiddio er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr effeithiau cyfreithiol cywir.*

*Bwriad y Panel yw i Orchymyn 2024 ddod i rym ar 1 Ebrill 2024 er mwyn alinio'r codiadau i'r Isafswm Cyflog Amaethyddol â'r cynnydd yn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol a fydd hefyd yn dod i rym ar y dyddiad hwnnw.*

*Nes y daw Gorchymyn 2024 i rym, bydd gweithwyr amaethyddol yng Nghymru yn parhau i gael eu talu yn unol â Gorchymyn 2023. Er mwyn sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl a sicrhau bod gweithwyr yn cael eu talu yn unol â'r cyfraddau gofynnol y cytunwyd arnynt gan y Panel, cynigir na fyddwn yn cadw at y confensiwn 21 diwrnod wrth wneud Gorchymyn 2024 er mwyn iddo allu dod i rym ar 1 Ebrill.*

*Credir bod angen a chyfiawnhad peidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod yng ngoleuni'r amgylchiadau anochel sydd wedi gohirio'r broses. Rwyf hefyd o'r farn bod cyfiawnhad dros leihau unrhyw oedi pellach o ran cynyddu'r cyfraddau cyflogau amaethyddol am y byddai'n lleihau'r amser y bydd gweithwyr amaethyddol sy'n dod o dan yr Isafswm Cyflog Amaethyddol dan anfantais mewn perthynas â'u dyfarniadau cyflog ac yn ei gwneud yn haws i gyflogwyr amaethyddol gydymffurfio."*

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### **Cynghorwyr Cyfreithiol**

### **Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**17 Ebrill 2024**



Senedd Cymru

**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

Welsh Parliament

**Tudalen y pecyn 7**

**Legislation, Justice and Constitution Committee**



Ein cyf/Our ref: MA/LG/0189/24

Y Gw. Anrh. Elin Jones AS  
Y Llywydd  
Senedd Cymru

[Llywydd@senedd.wales](mailto:Llywydd@senedd.wales)

19 Mawrth 2024

Annwyl Elin

## **Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2024**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu y bydd yr offeryn statudol hwn yn dod i rym ar 01 Ebrill 2024, llai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Amgaeir copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn er gwybodaeth ichi.

### **Cefndir**

Ar hyn o bryd, mae gweithwyr amaethyddol yng Nghymru yn cael eu talu yn unol â'r cyfraddau a bennir gan Orchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2023 ("Gorchymyn 2023") a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2023.

Corff cynghori annibynnol a sefydlwyd o dan Adran 2(1) o Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 gan Orchymyn Panel Cynghori Amaethyddol Cymru (Sefydlu) 2016 ar 1 Ebrill 2016 yw Panel Cynghori Amaethyddol Cymru ("y Panel"). Mae cylch gwaith y Panel yn cynnwys adolygu cyflogau ac amodau cyflogaeth eraill a hefyd gefnogi sgiliau a datblygu gyrfa o fewn y sector amaethyddol.

Penderfynodd y Panel gynyddu cyfraddau tâl isaf gweithwyr amaethyddol ac ymgynghorodd ynghylch y cynigion yn ystod hydref 2023. O ganlyniad, cafodd Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2024 ("Gorchymyn 2024") ei baratoi, sy'n:

- a) cynyddu'r cyfraddau tâl isaf fesul awr ar gyfer pob gradd a chategori o weithiwr amaethyddol
- b) cynyddu'r holl lwfansau;
- c) newid y gyfradd oramser a delir i weithwyr amaethyddol ar sail wir gyfradd cyflog fesul awr y gweithiwr amaethyddol, yn hytrach na'r gyfradd tâl isaf fesul awr a nodir yn y Atodlen 1; a
- d) gwneud nifer o newidiadau i symleiddio'r Gorchymyn 2023 drwy gael gwared ar ddarpariaethau sy'n ailadrodd darnau o ddeddfwriaeth arall.

Cymerwyd mwy o amser na'r disgwyl i gwblhau Gorchymyn 2024 gan fod yn rhaid wrth graffu cyfreithiol hir ar y newidiadau i'w symleiddio er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr effeithiau cyfreithiol cywir.

Bwriad y Panel yw i Orchymyn 2024 ddod i rym ar 1 Ebrill 2024 er mwyn alinio'r codiadau i'r Isafswm Cyflog Amaethyddol â'r cynnydd yn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol a fydd hefyd yn dod i rym ar y dyddiad hwnnw.

Nes y daw Gorchymyn 2024 i rym, bydd gweithwyr amaethyddol yng Nghymru yn parhau i gael eu talu yn unol â Gorchymyn 2023. Er mwyn sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl a sicrhau bod gweithwyr yn cael eu talu yn unol â'r cyfraddau gofynnol y cytunwyd arnynt gan y Panel, cynigir na fyddwn yn cadw at y confensiwn 21 diwrnod wrth wneud Gorchymyn 2024 er mwyn iddo allu dod i rym ar 1 Ebrill.

Credir bod angen a chyfiawnhad peidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod yng ngoleuni'r amgylchiadau anochel sydd wedi gohirio'r broses. Rwyf hefyd o'r farn bod cyfiawnhad dros leihau unrhyw oedi pellach o ran cynyddu'r cyfraddau cyflogau amaethyddol am y byddai'n lleihau'r amser y bydd gweithwyr amaethyddol sy'n dod o dan yr Isafswm Cyflog Amaethyddol dan anfantais mewn perthynas â'u dyfarniadau cyflog ac yn ei gwneud yn haws i gyflogwyr amaethyddol gydymffurfio.

Mae Memorandwm Esboniadol wedi'i baratoi ac mae hwn wedi'i osod, gyda Gorchymyn 2024, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir



**Lesley Griffiths AS/MS**  
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**  
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

# Eitem 2.2

## **SL(6)477 – Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 5 a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2024**

### **Cefndir a Diben**

Mae Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 5 a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2024 ("y Rheoliadau hyn") yn gweithredu newidiadau a wnaed i Ddeddf Adeiladu 1984 ("Deddf 1984") a gyflwynwyd gan Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 ("Deddf 2022").

Mae'r Rheoliadau hyn yn cychwyn adran 49(1) a (2) o Ddeddf 2022 ac yn diwygio'r ddeddfwriaeth ganlynol mewn perthynas â Chymru:

- Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010 (O.S. 2010/2215);
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (O.S. 2005/1541);
- Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) 2012 (O.S. 2012/3118).

Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 25 Ebrill 2024 ac maent yn rhan o gyfres o ddeddfwriaeth newydd sy'n dod â darpariaethau a wnaed gan Ddeddf 2022 i rym a gafodd y Cydsyniad Brenhinol yn 2022. Mae newidiadau i Ddeddf 1984 wedi cael eu gweithredu fesul cam er mwyn cyflwyno'r drefn rheoli adeiladu newydd.

Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru yn darparu mai diben cyffredinol y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y fframwaith rheoleiddiol yn parhau i fod yn gymwys, lle bo hynny'n briodol, wrth i reolaeth adeiladu yn y sector preifat newid o Arolygwyr Cymeradwywyr, o dan yr hen drefn, i Gymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu o dan y drefn newydd.

### **Y weithdrefn**

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

### **Materion technegol: craffu**

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.



## 1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio'r gwahanol ddulliau drafftio a ddefnyddiwyd mewn perthynas â rheoliad 3(j) a (k). Mae'r ddau reoliad yn diwygio cyfeiriadau at "approved inspector" i "approver" fel eu bod yn parhau i fod yn gymwys i gymeradwywyr cofrestredig rheolaeth adeiladu. Mae rheoliad 3(j) yn cyfeirio'n benodol at "[b]aragraff 4(a) a amnewidir", tra bod rheoliad 3(k) yn cyfeirio'n syml at "[b]aragraff 3 a amnewidir". O ystyried y tebygrwydd rhwng rheoliad 20(6) a 20(6A), fel y cyfeirir ato yn rheoliad 3(j) a (k), rhaid gofyn, pam fod y drafftio yn wahanol drwy bennu'r is-baragraff mewn un ddarpariaeth ond nid y llall.

### Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

#### Cynghorwyr Cyfreithiol

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**16 Ebrill 2024**



Senedd Cymru

**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

Welsh Parliament

**Tudalen y pecyn 11**

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

# Eitem 2.3

## SL(6)478 – Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio) (Cymru) 2024

### Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio cyfraith a gymathwyd (a elwid gynt yn gyfraith yr UE a ddargedwir) i ddileu'r gofyniad i baratoadau cig gael eu rhewi'n ddwfn pan fyddant yn cael eu mewnforio i Gymru. Bydd hyn yn caniatáu i baratoadau cig wedi'u hoeri o wladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd barhau i gael eu mewnforio, ac yn caniatáu mewnfornion yr aseswyd eu risg o weddill y byd o 28 Ebrill 2024, yn unol â Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban. Mae'r Rheoliadau hefyd yn dirymu offerynnau a darpariaethau mewn offerynnau eraill sydd wedi dod i ben sy'n ymwneud â dileu'r gofyniad hwn.

### Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

### Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

#### **1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Daw'r Rheoliadau i rym ar 28 Ebrill 2024, dim ond 14 diwrnod ar ôl iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd, ac felly mae'r rheol 21 diwrnod wedi'i thorri. Mewn llythyr dyddiedig 12 Ebrill 2024 at y Llywydd, dywed Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig:

*Mae Rheoliadau 2024 yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth ar gyfer Model Gweithredu Targed y Ffin (BTOM) sy'n cael ei chyflwyno gan Lywodraeth y DU. Bydd y ddeddfwriaeth BTOM hon yn tanio rheolaethau ffisegol ar nwyddau lechydol a Ffytiolechydol perthnasol o ddiwedd mis Ebrill, a bydd hefyd yn estyn y Cyfnod Graddoli Trosiannol (TSP) a fydd yn gohirio ymhellach wiriadau ar gyfer nwyddau sy'n cyrraedd o Iwerddon.*





*Rhaid i Reoliadau 2024 ddod i rym ar 28 Ebrill cyn i'r TSP presennol ddod i ben ar 29 Ebrill.*

*Mae rheoliadau BTOM Llywodraeth y DU ar ei hôl hi. Mae'n bosibl na fyddant yn cael eu gosod ar y ffurf a fwriadwyd i ddechrau (er enghraifft, drwy ddileu cynnwys neu rannu i wahanol offerynnau), ac mae'n debygol na fydd Llywodraeth y DU yn cadw at y confensiwn 21 diwrnod ar gyfer o leiaf un set o'u rheoliadau. Hyd yn hyn, mae fy swyddogion yn parhau i fod yn ansicr o ran y ffordd bendant ymlaen gan Lywodraeth y DU. Yn ddealladwy, mae hyn wedi cael sgil effaith ar y cynnydd a wnaed wrth wneud Rheoliadau 2024 oherwydd awydd cyffredinol am ddull synergaid ar draws Prydain Fawr.*

*O ystyried nad yw dyddiad dod i ben y TSP (29 Ebrill) yn symudol, mae'n ddrwg gennyf, ar yr achlysur hwn, o ystyried y pwyntiau yr wyf wedi'u hamlinellu, y bydd Rheoliadau 2024 yn dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl iddynt gael eu gosod.*

*Pe na bai'r Rheoliadau yn cael eu gwneud, byddai'r esemptiad presennol sydd ar waith yn dod i ben ar 29 Ebrill. Byddai hyn yn golygu y byddai paratodau cig sydd heb eu rhewi ar dymheredd mewnol o ddim mwy na  $-18^{\circ}\text{C}$  yn y safle cynhyrchu neu'r safleoedd cynhyrchu tarddiad, yn yr UE a'r AEE, yn anghyfreithlon i'w mewnfurio i Gymru. Byddai'r gofyniad i'r nwyddau hyn gael eu rhewi'n ddwfn yn rhwystr sylweddol i lif masnach rydd.*

*Yn ogystal, byddai Cymru'n methu â chyd-fynd â dull gweithredu ledled Prydain Fawr y cytunwyd arno yn y Grŵp Polisi Anifeiliaid a Chlefydau ac y mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban hefyd yn gwneud darpariaeth ar ei gyfer. Byddai hyn yn achosi gwahaniaethau o ran polisi a gwahaniaethau deddfwriaethol a dryswch i fasnachwyr.*

## **2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn nodi na chynhaliodd Gweinidogion Cymru ymgynghoriad mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae paragraff 6 o'r Memorandwm Esboniadol yn dweud:

*Nid yw'r gofyniad am ymgynghoriad yn codi o dan Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011. Felly, nid yw Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori mewn perthynas â'r offeryn hwn. Fodd bynnag, bu trafodaethau helaeth ledled Prydain Fawr â rhanddeiliaid o fewn y diwydiant bwyd-amaeth ac â phartneriaid cyflawni sy'n gyfrifol am reolaethau ar y ffin (fel awdurdodau ffiniau lleol, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion a'r Asiantaeth Safonau Bwyd) ers Ionawr 2021.*

*Hefyd, bu ymgynghori â gweinyddiaethau eraill y DU, a'r ASB ar y polisi a effeithiwyd gan yr offeryn hwn. Mae'r sefyllfa barhaol newydd hon ynghylch yr holl nwyddau P&R ar gyfer mewnfurion wedi'i threialu gyda'r Gymdeithas Masnachwyr Cig Rhyngwladol*



*(IMTA) mewn fforwm rhanddeiliaid rheolaidd dan arweiniad Defra, ac mewn nodyn rhanddeiliaid i gymdeithasau masnach POAO ym mis Ionawr 2024 (na chafwyd unrhyw ymatebion iddynt). Anfonwyd llythyr pellach gan Defra ym mis Mawrth 2024 at rhanddeiliaid ynghylch gweithredu Model Gweithredu Targed y Ffin yn ehangach a oedd hefyd yn amlinellu ac yn cyfeirio at y newidiadau y mae'r Rheoliadau hyn yn eu gwneud.*

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**17 Ebrill 2024**



Senedd Cymru

**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

Welsh Parliament Tudalen y pecyn 14

**Legislation, Justice and Constitution Committee**



Ein cyf/Ein cyf: MA/HIDCC/0898/24

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS  
Llywydd  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

12 Ebrill 2024

Annwyl Elin,

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu y bydd yr offeryn statudol hwn yn dod i rym ar 28 Ebrill 2024, llai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Amgaeir copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef er gwybodaeth ichi.

Mae'r offeryn hwn ("Rheoliadau 2024") yn gwneud diwygiadau i gyfraith a gymathwyd, yn benodol, Penderfyniad Comisiwn yr UE 2000/572/EC ("Rheoliadau'r UE") i ddileu'r gofyniad i fewnforion paratodau cig gael eu rhewi'n ddwfn. Bydd hyn yn caniatáu i baratodau cig wedi'u hoeri o wladwriaethau'r AEE barhau i gael eu mewnfario, ac yn caniatáu mewnfario yr aseswyd eu risg o weddill y byd (RoW) o 28 Ebrill 2024, yn unol â Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban.

Prif ddiben y ddeddfwriaeth yw caniatáu i baratodau cig wedi'u hoeri gael eu mewnfario pan fo'r amodau cludo a thymheredd yn gallu bodloni'r un lefel o ddiogelwch â phe baent yn cael eu cynhyrchu yn y DU. Mae'r polisi yn bodloni rhwymedigaethau Sefydliad Masnach y Byd (WTO), sy'n golygu na chaiff mesurau penodol i ddiogelu iechyd y cyhoedd ac anifeiliaid wahaniaethu'n annheg rhwng gwledydd. Mae'r polisi yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol ac asesiad risg.

Mae Rheoliadau 2024 hefyd yn dirymu OSau domestig a darpariaethau offerynnau eraill cysylltiedig sydd bellach wedi dod i ben a oedd yn flaenrol yn estyn yr ataliad dros dro ar y gofyniad rhewi dwfn ar gig wedi'i fewnfario yn unol â'r Cyfnod Graddoli Trosiannol (TSP).

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru)  
[Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales](mailto:Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Rheoliadau 2024 yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth ar gyfer Model Gweithredu Targed y Ffin (BTOM) sy'n cael ei chyflwyno gan Lywodraeth y DU. Bydd y ddeddfwriaeth BTOM hon yn tanio rheolaethau ffisegol ar nwyddau lechydol a Ffytioiechydol perthnasol o ddiwedd mis Ebrill, a bydd hefyd yn estyn y Cyfnod Graddoli Trosiannol (TSP) a fydd yn gohirio ymhellach wiriadau ar gyfer nwyddau sy'n cyrraedd o Iwerddon. Rhaid i Reoliadau 2024 ddod i rym ar 28 Ebrill cyn i'r TSP presennol ddod i ben ar 29 Ebrill.

Mae rheoliadau BTOM Llywodraeth y DU ar ei hôl hi. Mae'n bosibl na fyddant yn cael eu gosod ar y ffurf a fwriadwyd i ddechrau (er enghraifft, drwy ddileu cynnwys neu rannu i wahanol offerynnau), ac mae'n debygol na fydd Llywodraeth y DU yn cadw at y confensiwn 21 diwrnod ar gyfer o leiaf un set o'u rheoliadau. Hyd yn hyn, mae fy swyddogion yn parhau i fod yn ansicr o ran y ffordd bendant ymlaen gan Lywodraeth y DU. Yn ddealladwy, mae hyn wedi cael sgil effaith ar y cynnydd a wnaed wrth wneud Rheoliadau 2024 oherwydd awydd cyffredinol am ddull synergaid ar draws Prydain Fawr.

O ystyried nad yw dyddiad dod i ben y TSP (29 Ebrill) yn symudol, mae'n ddrwg gennyf, ar yr achlysur hwn, o ystyried y pwyntiau yr wyf wedi'u hamlinellu, y bydd Rheoliadau 2024 yn dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl iddynt gael eu gosod.

Pe na bai'r Rheoliadau yn cael eu gwneud, byddai'r esemptiad presennol sydd ar waith yn dod i ben ar 29 Ebrill. Byddai hyn yn golygu y byddai paratodau cig sydd heb eu rhewi ar dymheredd mewnol o ddim mwy na  $-18^{\circ}\text{C}$  yn y safle cynhyrchu neu'r safleoedd cynhyrchu tarddiad, yn yr UE a'r AEE, yn anghyfreithlon i'w mewnfario i Gymru. Byddai'r gofyniad i'r nwyddau hyn gael eu rhewi'n ddwfn yn rhwystr sylweddol i lif masnach rydd.

Yn ogystal, byddai Cymru'n methu â chyd-fynd â dull gweithredu ledled Prydain Fawr y cytunwyd arno yn y Grŵp Polisi Anifeiliaid a Chlefydau ac y mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban hefyd yn gwneud darpariaeth ar ei gyfer. Byddai hyn yn achosi gwahaniaethau o ran polisi a gwahaniaethau deddfwriaethol a dryswch i fasnachwyr.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Trefnydd a'r Prif Chwip, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig  
Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs



Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/5010/24

Sarah Murphy AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

18 Ebrill 2024

Annwyl Sarah,

Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor o fy mwriad i roi cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Diwygiadau Amrywiol) 2024. ('Rheoliadau 2024').

Rwyf wedi cael llythyr gan y Gweinidog Gwladol dros Fioddiogelwch, Iechyd a Lles Anifeiliaid, yr Arglwydd Douglas-Miller, yn gofyn am gydsyniad i'r Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau yn gorgyffwrdd â pholisïau datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Bydd y Rheoliadau yn rhychwantu Cymru, Lloegr a'r Alban ac mae cais tebyg am gydsyniad wedi'i anfon at Weinidogion yr Alban.

Bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir o dan:

- Erthyglau 72(3), 73(2), 76(4) a 105(6) o Reoliad (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch mesurau i ddiogelu rhag plâu planhigion ("y Rheoliad Iechyd Planhigion"), a;
- Erthyglau 22(2), 48(h), 54(3), 77(1), 90 a 144(6), a pharagraff 3(2) o Atodiad 6 i, Rheoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau bod cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael ei chymhwyso, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, Iechyd planhigion a chynnyrch diogelu planhigion ("y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol").

Diben Rheoliadau 2024 yw rhoi ail garreg filltir Model Gweithredu Targed y Ffin ar waith, sy'n dod i rym erbyn 30 Ebrill 2024, i amddiffyn bioddiogelwch a chefnogi masnach rhwng Prydain Fawr a thrydydd gwledydd. Mae'n cyflwyno cyfundrefn fewnforio fyd-eang newydd sy'n seiliedig ar risg ar gyfer nwyddau o'r Undeb Ewropeaidd ("UE") a gweddill y byd ("RoW") o ddiwedd mis Ebrill 2024 ymlaen. Mae'r newidiadau a wneir gan Reoliadau 2024 yn ymwneud â rheolaethau ar fewnforion i Gymru, Lloegr a'r Alban ar gyfer y gyfres o nwyddau a elwir gyda'i gilydd yn nwyddau iechydol a ffytoiechydol ("SPS").

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau sy'n eithrio nwyddau sy'n cyrraedd o ynys Iwerddon rhag y gofyniad am wiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol.

Nid yw Rheoliadau 2024 yn ymrwmo Gweinidogion Cymru i fabwysiadu unrhyw safbwynt o eiddo Llywodraeth y DU ar fioddlogelwch yn y dyfodol. Nid yw'r Rheoliadau yn lleihau nac yn tanseilio pwerau Gweinidogion Cymru mewn unrhyw ffordd.

Egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, ond yn yr achos hwn, ystyriwyd y byddai'n briodol i'r offeryn hwn fod yn gymwys i Gymru gan nad oes gwahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y mater hwn. Mae hyn yn sicrhau llyfr statud sy'n gydlynol ac yn gyson, ac yn golygu bod y rheoliadau ar gael mewn un offeryn statudol. Rwyf o'r farn nad deddfu i Gymru ar wahân fyddai'r ffordd fwyaf priodol o roi effaith i'r newidiadau sydd eu hangen, ac na fyddai'n ddefnydd darbodus o adnoddau Llywodraeth Cymru chwaith, o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Rwyf wedi anfon llythyr tebyg at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig  
Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

15 Ebrill 2024

Annwyl Gadeirydd,

**Y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): ymateb i adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am graffu ar y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 21 Mawrth 2024. Rwyf wedi nodi fy ymateb i gasgliadau ac argymhellion y Pwyllgor yn Atodiad A.

Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg mewn perthynas â'u Hadroddiadau Cyfnod 1, a byddaf yn anfon copi o'r llythyrau at Gadeiryddion y tri Phwyllgor.

Yn gywir



Sam Rowlands AS

Aelod o Senedd Cymru dros Ogledd Cymru

## Atodiad A

### Ymateb Sam Rowlands AS i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)

**Argymhelliad 1:** Er mwyn bodloni bwriad polisi'r Aelod sy'n gyfrifol ac i roi eglurder ar wyneb y Bil, dylid ei ddiwygio i gynnwys mecanwaith a fyddai'n galluogi disgybl, neu ei riant, i ddewis peidio â chael cwrs addysg awyr agored breswyl.

#### Ymateb: Derbyn

Mae'r Bil wedi'i ddrafftio i ddiwygio Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") i wneud cwrs addysg awyr agored breswyl yn rhan orfodol o'r cwricwlwm, ond nodir yn y Memorandwm Esboniadol nad oes bwriad i orfodi plant i ddilyn cyrsiau o'r fath os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny. Rwyf wedi gwneud y pwynt hwn drwy gydol proses Cyfnod 1.

Nid yw'r Bil yn darparu ar gyfer unrhyw elfen "optio allan" neu ddewisol gan fod darpariaeth yn Neddf 2021 eisoes, ac mewn rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno, sy'n galluogi penaethiaid ysgolion a gynhelir i benderfynu na ddylai darpariaethau'r Cwricwlwm ar gyfer Cymru fod yn gymwys i blentyn neu ddisgybl penodol. Pe na bai plentyn yn dymuno cymryd rhan yn y cwrs addysg awyr agored breswyl a ddarperir o dan y Bil, byddai'r mecanweithiau sy'n bod eisoes yn galluogi pennaeth yr ysgol i wneud penderfyniad at y diben hwnnw.

Mae'r Pwyllgor yn nodi y byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r disgybl neu ei riant roi rhesymau i'r pennaeth pan fyddent yn gofyn am benderfyniad o'r fath, ond ystyriaf fod hyn yn fanteisiol gan y byddai'n galluogi'r pennaeth i ystyried a ellid gwneud unrhyw beth i fynd i'r afael â'r pryderon cyn gwneud y penderfyniad. Yn yr un modd, mae'r Pwyllgor yn nodi mai dim ond am chwe mis y mae'r penderfyniad yn para, ond mae hyn yn rhoi cyfle i'r disgybl ailystyried a yw'n dymuno manteisio ar unrhyw gyfleoedd yn y dyfodol neu a oes angen penderfyniad arall yn y cyswllt hwn.

Mae'r Bil yn cadarnhau na ddylai disgyblion gael eu gorfodi i fynychu cwrs addysg awyr agored breswyl drwy ddarparu ar gyfer cyhoeddi canllawiau o dan adran 71A newydd o Ddeddf 2021. Rhaid i'r canllawiau ddarparu "nad yw addysg awyr agored breswyl yn orfodol i ddisgyblion ei mynychu". Rwy'n sylweddoli na all y canllawiau eu hunain newid effaith gyfreithiol y Bil, sy'n gwneud addysg awyr agored breswyl yn rhan orfodol o'r cwricwlwm. Fodd bynnag, y bwriad yw y byddai'r canllawiau'n nodi'n glir y dylai penaethiaid ddefnyddio eu pŵer o dan y Rheoliadau perthnasol i benderfynu nad yw'r gofyniad i ddarparu cwrs addysg awyr agored breswyl fel rhan o'r cwricwlwm yn berthnasol i blant nad ydynt yn dymuno cymryd rhan ynddo.





O ystyried y mecanweithiau sydd eisoes ar waith, fel y nodir uchod, nid oes angen diwygio'r Bil i allu datgymhwyso'r gofyniad i ddarparu cwrs addysg awyr agored breswyl. Fodd bynnag, byddwn yn hapus i ystyried a ellid cyflwyno gwelliant o'r fath yng Nghyfnod 2 pe bai hynny'n gwneud y bwriad yn gliriach, a'i effaith yn haws i'w rheoli'n ymarferol.

**Argymhelliad 2:** Dylid diwygio'r Bil i gynnwys diffiniad o 'addysg awyr agored breswyl'.

**Ymateb: Gwrthod**

Yn ystod y broses o ddatblygu'r Bil a'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod Cyfnod 1, cafwyd safbwyntiau amrywiol ynghylch a ddylid diffinio addysg awyr agored breswyl ar wyneb y Bil ac, os felly, beth y dylid ei gynnwys mewn diffiniad o'r fath.

O ystyried y safbwyntiau amrywiol ar hyn, rwyf o'r farn y gallai cynnwys diffiniad ar wyneb y Bil gyfyngu ar ei weithrediad yn y dyfodol, oherwydd pe bai angen diwygio'r diffiniad hwnnw i adlewyrchu newidiadau mewn arfer neu yn y galw am rai elfennau o addysg awyr agored, byddai angen deddfwriaeth sylfaenol bellach neu ddefnyddio pŵer Harri VIII (a fyddai, yn yr achos olaf wrth gwrs, yn galluogi Llywodraeth Cymru i newid deddfwriaeth sylfaenol gyda chyfleoedd cyfyngedig i'r Senedd graffu arni).

Rwyf o'r farn bod y cysyniad o addysg awyr agored breswyl wedi'i nodi'n ddigonol yn y Memorandwm Esboniadol i'r Bil. Mae'r Bil hefyd yn darparu ar gyfer Cod addysg awyr agored breswyl, a allai roi llawer mwy o fanylion am yr hyn y dylai cwrs addysg awyr agored breswyl ei gynnwys yn ymarferol. Byddai hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i unrhyw ddiffiniad ymateb i newidiadau mewn arfer a rhoi mwy o hyblygrwydd i ysgolion benderfynu ar y math o brofiad sy'n briodol i'w disgyblion.



**Argymhelliad 3:** Dylid diwygio'r Bil i:

- ddileu'r cyfeiriadau at ofynion rhagnodedig y mae'n rhaid eu nodi mewn canllawiau o adran 71A newydd o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)2021, i'w mewnosod gan adran 1(3); a
- mewnosod y gofynion rhagnodedig hynny, ar ffurf briodol, yn adran 64Anewydd o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, i'w mewnosod gan adran 1(2).

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Dyma'r cyfeiriadau yn yr adran 71A newydd at y gofynion rhagnodedig y mae'n rhaid eu nodi mewn canllawiau:

- darparu nad yw addysg awyr agored breswyl yn orfodol i ddisgyblion ei mynychu;
- darparu bod addysg awyr agored breswyl yn addas ar gyfer oedran, gallu a dawn disgybl, ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol sydd ganddo;
- darparu y caiff addysg awyr agored breswyl ei darparu yn Gymraeg, cyn belled â'i bod ar gael, os yw ysgol yn gwneud cais am hynny;
- gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r costau y byddai'n rhesymol eu hysgwyddo mewn cysylltiad ag addysg awyr agored breswyl, gan gynnwys costau bwyd a llety a chludiant ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.

Nodaf bryderon y Pwyllgor ynghylch y modd y mae'r Bil yn mynd i'r afael â'r gofynion hyn. Weithiau, fodd bynnag, er enghraifft, mewn perthynas â gwneud darpariaeth ynghylch costau rhesymol, efallai y byddai'n rhy ragnodol nodi'r manylion hyn ar wyneb y Bil.

Fodd bynnag, gallaf dderbyn yr argymhelliad mewn egwyddor. Os bydd y Bil yn symud ymlaen i Gyfnod 2, rwyf yn fodlon ystyried pob un o'r gofynion a nodir uchod i benderfynu a ellir eu rhagnodi neu a ellir ymdrin â nhw mewn ffordd wahanol er mwyn lleddfu pryderon y Pwyllgor.



**Argymhelliad 4:** Yn sgil argymhelliad 3, dylai'r Aelod sy'n gyfrifol ystyried a oes angen i adran 71A(1) newydd o Ddeddf 2021 osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau ar addysg awyr agored breswyl. Os bernir bod angen dyletswydd i ddyroddi canllawiau, dylid cynnwys dyletswydd o'r fath fel darpariaeth annibynnol yn Neddf 2021, nad yw'n gysylltiedig ag adran 71, a dylid diwygio'r Bil yn unol â hynny.

**Ymateb: Derbyn**

Er gwaethaf unrhyw newidiadau a wneir i'r Bil yng Nghyfnod 2 i adlewyrchu argymhelliad 3, rwyf yn dal o'r farn y dylai Gweinidogion Cymru fod â dyletswydd i gyhoeddi canllawiau i fynd i'r afael â'r materion eraill a nodir yn adran 71A arfaethedig o Ddeddf 2021. Fodd bynnag, byddwn yn fodlon cyflwyno gwelliant i gynnwys y ddyletswydd hon fel darpariaeth annibynnol nad yw'n gysylltiedig ag adran 71 o Ddeddf 2021.

**Argymhelliad 5:** Er mwyn sicrhau effeithiolrwydd darpariaethau'r Bil, dylai'r Aelod sy'n gyfrifol ystyried a ddylid diwygio'r Bil i ddileu'r cyfeiriadau at "cyn belled â'i bod ar gael" a "pan fo ysgol yn gwneud cais am hynny" o adran 71A(3)(d) newydd o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, fel y'i mewnosodwyd gan adran 1(3) o'r Bil.

**Ymateb: Gwrthod**

Os caiff ei ddiwygio fel yr awgrymir uchod, byddai adran 71A(3)(d) o Ddeddf 2021 yn nodi bod yn rhaid i ganllawiau ddarparu bod addysg awyr agored breswyl yn cael ei darparu yn Gymraeg. Byddai'n dilyn wedyn y byddai'n rhaid i ysgol sy'n ceisio cynnig cwrs addysg awyr agored breswyl o dan Ddeddf 2021 roi sylw dyledus i'r gofyniad yn y canllawiau i'w ddarparu yn Gymraeg. Gallai hyn arwain at y canlyniad anfwriadol y byddai ysgolion nad ydynt yn dymuno i'r cwrs gael ei ddarparu yn Gymraeg yn cael eu hatal rhag ystyried darparwyr sy'n cynnig darpariaeth Gymraeg, ar y sail y gallai fod angen iddynt wedyn dderbyn y cynnig hwnnw hyd yn oed os nad yw'n addas ar gyfer disgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg. Gallai hefyd arwain at sefyllfa lle byddai darparwyr nad ydynt yn gallu cynnig profiad drwy gyfrwng y Gymraeg yn gwrthod gwneud unrhyw gynnig o gwbl. Byddai hynny, yn ei dro, yn cyfyngu ar gyfleoedd i blant gael addysg awyr agored breswyl.

Diben cynnig bod y ddarpariaeth hon yn amodol ar yr hyn sydd ar gael ac ar y galw yw sicrhau mai'r ysgolion fydd yn penderfynu beth yw'r profiad gorau i'w gynnig i'w disgyblion, gan ystyried y gofynion mewn perthynas â'r Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg a nodir yn y canllawiau. Bwriedir hefyd sicrhau nad yw darparwyr sy'n gallu cynnig darpariaeth Gymraeg yn cael eu llethu gan y galw neu,



i'r gwrthwyneb, nad yw ysgolion yn ystyried na allant gynnig cyfle sy'n cydymffurfio â'r canllawiau oherwydd nad yw'r ddarpariaeth ar gael yn Gymraeg.

**Argymhelliad 6:** Yn sgil sylwadau'r Gweinidog, dylai'r Aelod sy'n gyfrifol ystyried addylid diwygio'r Bil i estyn y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid dyroddi'r Cod Addysg Awyr Agored Breswyl a'r canllawiau cyntaf.

**Ymateb: Derbyn**

Fy nod yn y Bil hwn yw sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn darparu cwrs addysg awyr agored breswyl yn rhad ac am ddim, unwaith, i ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir. Os yw'r Gweinidog o'r farn y byddai angen mwy o amser i sicrhau bod Cod a chanllawiau llawn a defnyddiol ar gael i gefnogi'r ddarpariaeth hon, byddwn yn fodlon ystyried cyflwyno gwelliannau at y diben hwn yng Nghyfnod 2. Fodd bynnag, byddwn yn gosod cafeat mewn perthynas â hyn, sef y byddwn yn disgwyl i'r Gweinidog bennu amserlen benodol ac y byddwn am i hyn gael ei hadlewyrchu ar wyneb y Bil.



Peredur Griffiths MS,  
Chair of Finance Committee

15 April 2024

Dear Peredur,

**Residential Outdoor Education (Wales) Bill: response to the Finance Committee's  
Stage 1 report**

I would like to thank the Finance Committee for their scrutiny of the Residential Outdoor Education (Wales) Bill ("the Bill") during Stage 1 and for the report which was published on 21 March 2024. I have set out my response to the Committee's conclusions and recommendations at Annex A.

I note that the Committee was broadly content with the financial implications of the Bill as set out in the Regulatory Impact Assessment. I also very much welcome, and appreciate, the Committee's Conclusion 3 regarding the level of detail provided on the cost estimates. In developing the RIA, a significant amount of work was undertaken, including with providers of residential outdoor education, and I truly believe that the costs set out in the RIA are as robust and as complete as I could have possibly made them.

With that in mind, it has not been possible for me to accept all of the Committee's recommendations, as noted in Annex A. However, I would like to make the general point that should the Bill progress through the legislative process, I will continue to develop the RIA and will, of course, publish a revised RIA as appropriate.

Lastly, I wanted to make you aware that I will also be writing to the Chairs of the Children, Young People and Education Committee and the Legislation, Justice and Constitution Committee with respect to their Stage 1 Reports, and will copy the letters to all three Committee Chairs.

Yours sincerely



Sam Rowlands MS

**Member of the Welsh Parliament for North Wales**

## Annex A

### Response from Sam Rowlands, MS to the Finance Committee's Report on the Residential Outdoor Education (Wales) Bill

**Conclusion 1.** The Committee is broadly content with the financial implications of the Bill as set out in the Regulatory Impact Assessment, subject to the comments and recommendations in this report. Should there be significant changes to the Regulatory Impact Assessment as a result of the recommendations made in this report, the Committee may consider those changes in more detail.

**Conclusion 2** The Committee notes the budgetary pressure that is currently being experienced by the Welsh Government and also notes the significant level of funding required for this Bill.

**Conclusion 3** The Committee was impressed with the level of detail provided on the cost estimates included in the Regulatory Impact Assessment, and believes this approach represents a good example for the Welsh Government and others to follow in terms of the level of detail that should be included in relation to the costs of legislation.

**Conclusion 4** The Committee notes that the five-year appraisal period for this Bill is appropriate and is in line with the timescales applied by the Welsh Government in assessing the impact of the Bills it introduces. We expect all Bills to be treated and scrutinised on an equal basis and to the same standard.

#### **Response: Noted**

I am happy that the Committee was broadly content with the financial implications of the Bill as set out in the Regulatory Impact Assessment. I also very much welcome, and appreciate, the Committee's Conclusion 3 regarding the level of detail provided on the cost estimates.

In developing the RIA, a significant amount of work was undertaken, including with providers of residential outdoor education, and I truly believe that the costs set out in the RIA are as robust and as complete as I could have possibly made them.



**Recommendation 1.** Although the Committee is content with the approach adopted in removing inflation when costing the Bill, the Committee recommends that the Member in Charge undertakes further analysis on its potential impact given the current level of inflation and the significant cost of the Bill.

**Response: Accept**

If the General Principles of the Bill are agreed, further analysis regarding the impact of inflation will be undertaken and included in a revised RIA.

**Recommendation 2.** The Committee recommends that the Member in Charge undertakes further work on the potential increase in demand for residential stays at outdoor activity centres as a result of the Bill being passed.

**Response: Accept**

In developing the Bill and the RIA, a substantial amount of work was undertaken to establish current levels of participation in residential outdoor education. This included examining the EVOLVE data and working with the Outdoor Education Advisers' Panel (OEAP) who undertook a survey with schools. Details on the findings are included in Chapter 3 of the EM – 'Purpose and intended effect of the Bill'.

The aim of the Bill is to make an offer of residential outdoor education compulsory under the curriculum, and costs are therefore based on the assumption of 100% take up of the offer. A reasonable assumption of the increase in demand can therefore be made by comparing the data we established on current take up to the assumption of 100% take up.

Moving forward, the potential increase in demand could be analysed further once the Bill has completed the legislative process, and has been passed. There are elements of the Bill as introduced that will be for the Welsh Ministers to deliver, and which could have an impact on demand. All of this will be taken into account as the Bill continues through the legislative process.

I note that part of the Committee's concern is that an increase in demand could potentially lead to increases in costs for those areas. I do not envisage this to be the case. However, if costs were to increase as a result, it would be impossible to predict what those costs would be and where any increase might occur.



**Recommendation 3.** The Committee recommends that the Member in Charge undertakes further work analysing and estimating the benefits of the Bill, and for this information to be included in a revised Regulatory Impact Assessment.

**Response: Reject**

In developing the Bill, the Explanatory Memorandum and Regulatory Impact Assessment, a substantial amount of work has been undertaken to analyse and capture the potential benefits of residential outdoor education. Significant detail on the potential benefits of the Bill is included throughout the Explanatory Memorandum, not just within the RIA.

The information on the benefits contained in the EM has been drawn together following lengthy and detailed discussion with a wide range of individuals and organisations. This includes discussion with providers of outdoor education across the UK and elsewhere, as well as drawing on evidence from experts such as the Outdoor Education Advisers' Panel, and the Institute for Outdoor Learning.

I refer the Committee in particular to:

- Chapter 3 – paragraph 18; paragraphs 23 to 25; paragraphs 60 to 69; paragraphs 79 to 101.
- RIA – paragraphs 212 to 224.

While I reject the Committee's recommendation, I note and agree with the Committee's view that "The Committee expects RIAs to contain the best estimate possible for benefits as well as costs to enable it to fully scrutinise the overall financial implications of a Bill". I am satisfied that the RIA I have prepared does contain the best estimate possible.

If the Bill is passed, and enacted, I would fully support any 'post-legislative' work to analyse whether the Bill has had the impact and the benefits that are expected.

**Recommendation 4.** The Committee recommends that the Member in Charge updates the Regulatory Impact Assessment to include an analysis and costs of items other than specialist equipment that pupils may need when attending a residential outdoor education experience, such as suitable clothing and footwear.

**Response: Reject**

This is an issue to which I gave a great deal of consideration while developing the Bill and the Explanatory Memorandum, and on balance, I did not believe that the cost of non-essential clothing and footwear should form part of the costings for the Bill.

As the Committee will be aware, the purpose of the Bill is to enable all pupils in maintained schools to experience residential outdoor education. To achieve that,





the Welsh Ministers will have a duty to take all reasonable steps to ensure a course of residential outdoor education is provided once to all pupils in maintained schools, free of charge.

I fully understand that when attending a course of residential outdoor education, pupils would be expected to take suitable clothing, such as coats and footwear. However, these can be seen as non-essential for the specific activities they may undertake as part of the experience and are therefore not unique to the purposes of the Bill.

When organising residential visits away, schools provide pupils with a list of things they would need to take with them. In my discussions with providers, it was often the case that what schools were telling pupils they 'needed' was over and above what the centres themselves actually required pupils to bring.

In paying for any non-essential items of clothing, there is also the challenge of distinguishing between what pupils might 'need' and what they might 'want'. Social pressures will inevitably lead to certain demands from pupils. The clothing that some (if not most) pupils choose to wear may be branded goods that would not offer value for money if the cost is being met through the Bill.

It is also a reasonable assumption that most pupils would already require those non-essential items of clothing for purposes out with the Bill. As such the cost is not included as it is not something directly attributable to the Bill. It would be impossible to know with any sense of certainty what would need to be paid for in this regard. It was therefore decided that the costs to be included as part of the Bill should be those costs that would need to be met by ALL pupils attending a course of residential outdoor education.

Where there are items of clothing that pupils may not have, and which might prevent a child attending, the School Essentials Grant could be used to help meet those costs. I am aware that the Committee has heard evidence in this regard during its evidence gathering.

**Recommendation 5.** The Committee recommends that the Member in Charge provides further information about how guidance around the Bill will ensure that value for money is a key consideration when schools make choices about residential outdoor education.

**Response: Accept**

Ensuring value for money depends on a range of factors. It is essentially a balance between what is on offer and the aims of the school. There needs to be a clear picture in place of what a school requires from a visit, and what the provider will deliver.



The most important thing in assessing value for money is whether the aims of the visit have been met. This could be achieved through an evaluation of the visit by the teacher leading it. Such an evaluation would also enable staff to identify strengths and weaknesses, potential improvements and plan for future residential. The evaluation can be used to demonstrate effective use of the funding.

To achieve this there is a need for accompanying school staff to recognise what value for money might look like. One way to help this is through training around what the LOtC Quality Badge involves, as it incorporates aspects of provision that encourage the conditions leading to successful outcomes.

The Bill already requires the Welsh Ministers to issue guidance in respect of Residential Outdoor Education, and that the guidance "(g) must make provision in respect of the costs that it would be reasonable to incur in connection with residential outdoor education, including, but not limited to, the cost of board and lodging and transport". This should provide some safeguard that the costs of visits must be reasonable. However I would be happy to explore if the guidance provisions in the Bill could be strengthened to further promote the need to ensure value for money.

**Recommendation 6.** Given the varied needs and requirements of pupils, the Committee recommends that the Member in Charge provides further analysis on the estimated costs for pupils with complex needs and Additional Learning Needs, and for this information to be included in a revised Regulatory Impact Assessment.

**Response: Reject**

The RIA already contains what I consider to be an accurate estimate of the costs for pupils with complex needs to attend a residential outdoor education experience.

In developing the estimate, I have worked directly with the Exmoor Calvert Trust and the Bendrigg Trust, two of the leading providers in the UK of activity breaks for people with disabilities and special needs.

The costs provided directly from those centres equated to approximately double the average cost provided by centres responding to the survey sent out to support data collection related to the Bill. These costs are set out in the RIA.



**Recommendation 7.** The Committee recommends that the Member in Charge provides further analysis on supply teaching costs, and for this information to be included in a revised Regulatory Impact Assessment.

**Response: Reject**

In rejecting this recommendation, I acknowledge that there are often challenges in finding suitable supply teacher cover – as outlined in evidence to the Committee.

However, in developing the costs for the Bill in this respect, I have based the estimate on the assumption that supply cover would be available whenever needed, and as such this should provide for the maximum costs associated with this aspect of the Bill.

I note the Committee has based the recommendation on its concerns over the availability of supply teacher cover. However, the availability of cover should not change the actual costs of providing that cover based on the assumption already outlined. Therefore, I do not believe there to be any underestimation as I have based the estimate on that cover being available.

**Recommendation 8.** The Committee recommends that the Member in Charge undertakes further work on cost implications in relation to potential changes for the School Teachers Pay and Conditions Document as a result of the Bill being passed.

**Response: Reject**

It would not be appropriate for me, as an individual Member of the Senedd to undertake work to consider possible changes to the School Teachers Pay and Conditions Document.

If, as a result of the Bill being passed, a change to that document is required, it would be for Welsh Ministers to work with teachers, and unions, to establish the extent to which any changes are required.



**Recommendation 9.** The Committee recommends that the Member in Charge provides further information on the costs associated with the tracking and monitoring of pupils' attendance at a residential outdoor education experience in a revised Regulatory Impact Assessment.

**Response: Reject**

The RIA already contains the best estimate for the costs of tracking pupils – based on discussions with stakeholders on the likely way on which that tracking could work in practice.

These discussions noted that tracking could be integrated into each pupil record entered into the appropriate information management system, which would require an additional field to be inputted into the pupil record database.

These costs are currently unknown as local authorities would need to approach the software developers to obtain a cost. However, as local authorities already utilise information management systems it is believed the transition costs to implement an additional field would be negligible.

**Recommendation 10.** The Committee recommends that the Member in Charge provides clarification on any potential inspection requirements associated with the Bill, including any role for Estyn, and further detail on how effective monitoring of the Bill will be achieved.

**Response: Accept**

The Bill will require that public money is to be used to fund a course of residential outdoor education as part of education, and I acknowledge there may arguably be a need for some form of quality control and assessment that it is meeting desired educational outcomes.

As it will be the school itself that sets the aims of the visit, it should also follow that the school has responsibility for assessing whether these aims have been met.

Estyn itself confirmed in evidence that if the Bill progresses and outdoor education residentials become a statutory requirement, that would be taken into account when Estyn inspects a school's teaching and learning. However, through its routine inspections, Estyn wouldn't look at the actual visits schools undertake and form a judgement on these. If this was desired, the Welsh Government would need to remit Estyn to carry out a thematic review, which it could do as part of its annual remit letter. There will therefore not be any additional role for Estyn as a matter of course.

Current, voluntary quality frameworks that providers of outdoor education can access include assessments of teaching and learning processes, as well as a range



of other 'components of provision', including safety, admin, etc. Statutory and non-statutory inspection systems exist already and are carried out at the expense of the provider.

**Recommendation 11.** The Committee recommends that the Member in Charge includes a post-implementation review in a revised Regulatory Impact Assessment, which should include information as to how the overall costs and benefits of the Bill will be monitored.

**Response: Accept**

As outlined in my response to Recommendation 3, if the Bill is passed, and enacted, there would be a substantial piece of work needed to analyse whether the Bill has the impact, and the benefits, that are expected.

If the Bill progresses to Stage 2, I will explore the possibility of including a post-implementation review, which may be better placed set out on the face of the Bill rather than in the RIA.



## Sam Rowlands

Member of the Welsh Parliament for  
North Wales

Aelod Senedd dros  
Gogledd Cymru

North Wales Office | Swyddfa Gogledd Cymru

North Wales Business Park, Abergele LL22 8LJ

Cardiff Office | Swyddfa Caerdydd

Senedd Cymru, Cardiff Bay, Cardiff CF99 1SN

Tel | Ffôn: 0300 200 7267

Email | E-bost: sam.rowlands@senedd.wales

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

15 Ebrill 2024

Annwyl Gadeirydd,

### **Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): ymateb i adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am ei waith craffu ar Fil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 21 Mawrth 2024. Rwyf wedi nodi fy ymateb i gasgliadau ac argymhellion y Pwyllgor yn Atodiad A.

Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â'u hadroddiadau Cyfnod 1, a byddaf yn anfon copiau o'r llythyrau at Gadeiryddion y tri Phwyllgor.

Yn gywir,



Sam Rowlands AS

Aelod o Senedd Cymru dros Ogledd Cymru

## Atodiad A

### Ymateb gan Sam Rowlands AS i adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Fil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)

**Argymhelliad 1.** Os caiff y Bil ei basio, dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad o gapasiti o fewn y sector addysg awyr agored breswyl, y bydd rhaid iddo gynnwys asesiad o gapasiti ar gyfer darpariaeth hygyrch a chynhwysol; a darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Dylid cyhoeddi'r adolygiad hwn, a dylid sicrhau bod gwybodaeth am y ddarpariaeth ar gael i ysgolion i'w helpu i lywio eu gwaith o gynllunio a dylunio profiadau addysg awyr agored breswyl.

#### **Ymateb: Nodwyd**

Gan mai mater i Lywodraeth Cymru yn hytrach nag i mi fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil yw'r argymhelliad hwn, ni fyddai'n briodol imi dderbyn neu wrthod yr argymhelliad hwn.

Er i mi wneud llawer o waith yn ystod datblygiad y Bil i ddadansoddi a deall capasiti presennol y sector addysg awyr agored breswyl, byddwn yn cefnogi barn y Pwyllgor y bydd cael gwell dealltwriaeth o gapasiti yng Nghymru yn helpu i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Bil os caiff ei basio. Fel y cyfryw, byddwn yn croesawu adolygiad o'r fath.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ehangu'r meini prawf cymhwystra i gynnwys disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol.

#### **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Fel y gŵyr y Pwyllgor, mae hwn yn fater yr wyf wedi rhoi cryn dipyn o ystyriaeth iddo drwy gydol y broses o ddatblygu'r Bil.

Ar ddechrau'r broses, roedd y cynnig a gyflwynais, ac y cefais ganiatâd i fwrw ymlaen ag ef, yn ceisio pennu dyletswydd statudol i sicrhau bod pob person ifanc sy'n derbyn addysg a gynhelir yn cael y cyfle i brofi addysg awyr agored breswyl. Wrth ddatblygu'r Bil, y ffordd orau o gyflawni hyn oedd drwy wneud addysg awyr agored breswyl yn rhan o'r cwricwlwm, a hynny drwy wneud diwygiadau perthnasol i Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Deddf 2021).

Wrth imi symud drwy'r broses, a chynnal ymgynghoriadau ar yr amcanion polisi a'r Bil drafft, daeth yn amlwg bod safbwyntiau cryf y dylid ehangu'r Bil i gynnwys disgyblion sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol (h.y. y rhai y tu allan i leoliadau addysg a gynhelir yr oedd fy nghynnig gwreiddiol yn ymwneud â hwy).



Roeddwn yn cydnabod yn llwyr y gallai plant sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, fel y rhai mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCDau), elwa'n arbennig o brofiad awyr agored preswyl a ddarperir o dan y Bil. Fodd bynnag, wrth ddod â'r Bil gerbron y Senedd, roeddwn i'n credu mai'r ffordd orau o gyflawni'r amcanion gwreiddiol oedd drwy ystyried y ffordd orau i'r Bil weithio, a phenderfynais fwrw ymlaen â'r Bil fel y mae'n ymwneud ag addysg a gynhelir, a hynny drwy'r newidiadau a gynigir i Ddeddf 2021. Wrth wneud hynny, roeddwn yn ymwybodol bod Deddf 2021 yn gosod gofynion cwricwlwm gwahanol mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion i'r rhai mewn ysgolion, lle mai dim ond rhai agweddau ar y Cwricwlwm i Gymru sy'n orfodol. Roeddwn felly'n ceisio bod yn ymwybodol o ddull gweithredu Deddf 2021.

Fodd bynnag, rwy'n cydnabod y gellid cryfhau'r rhan hon o'r Bil. Mae'r dystiolaeth a glywyd yn ystod proses Cyfnod 1 wedi amlygu hyn ymhellach. Fodd bynnag, roedd angen pennu rhai ystyriaethau sylweddol o ran sut y gellid cyflawni hyn, ac ai'r ffordd orau o gyflawni hynny fyddai drwy'r Bil neu drwy ddulliau eraill dan arweiniad Llywodraeth Cymru.

Os bydd y Bil yn symud yn ei flaen, rwy'n ymrwymo i adolygu'r mater hwn, a gweithio gyda Llywodraeth Cymru i weld pa mor ymarferol yw ymestyn y ddarpariaeth i ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, ac ai'r Bil fyddai'r lle gorau i hyn neu ddulliau eraill. Fodd bynnag, o ystyried y cyfyngiadau amser, efallai na chaiff y gwaith hwnnw ei gwblhau mewn pryd i gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2.

**Argymhelliad 3.** Dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddileu'r ddarpariaeth y dylai addysg awyr agored breswyl gynnwys pedair noson a phum diwrnod er mwyn sicrhau bod mwy o hyblygrwydd o ran hyd profiad addysg awyr agored breswyl sy'n gysylltiedig ag anghenion plant ac ysgolion unigol.

#### **Ymateb: Gwrthod**

Rwy'n deall pryderon y Pwyllgor yn hyn o beth yn llwyr, ac yn cytuno mai mater i ysgolion yw gwneud penderfyniadau sy'n gweddu orau i anghenion eu hysgolion unigol. Fodd bynnag, rwy'n credu bod y Bil fel y'i drafftwyd eisoes yn caniatáu'r hyblygrwydd hwn.

Mae'r Bil yn cynnig bod Adran 64A newydd yn cael ei mewnosod yn Neddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Deddf 2021) sy'n ymwneud â darparu cwrs addysg awyr agored breswyl.

Mae'r adran newydd arfaethedig honno yn darparu bod yn rhaid i gwrs addysg breswyl fod yn bedair noson a phum niwrnod o leiaf. Mae'r adran newydd arfaethedig yn mynd ymlaen i nodi y gall y cwrs addysg awyr agored breswyl ddigwydd ar un ymweliad neu ei rannu dros fwy nag un ymweliad.





Byddai hyn yn galluogi ysgol i benderfynu, fel rhan o gwrs addysg awyr agored breswyl, hyd yr ymweliad yr hoffai ei drefnu, a allai amrywio o un noson i bedair noson. Gallai ysgolion hefyd benderfynu trefnu mwy nag un profiad addysg awyr agored breswyl fel rhan o'r 'cwrw addysg awyr agored breswyl' sy'n ofynnol o dan Ddeddf 2021, cyn belled â bod cyfanswm pob profiad yn bedair noson a phum diwrnod o leiaf.

Rwy'n nodi bod y Pwyllgor yn credu y dylai cyfeiriadau at hyd profiadau fod yn y canllawiau ac na ddylid eu cynnwys ar wyneb y Bil. Fy nghynnig gwreiddiol, y rhoddodd y Senedd ganiatâd i fwrw ymlaen ag ef ym mis Hydref 2022, oedd hawl i "wythnos o leiaf" o addysg awyr agored breswyl. Dyma ran o'r rheswm i mi gynnwys hyn ar wyneb y Bil, ond mae hyblygrwydd i'r cyfnod cyfan hwn gynnwys mwy nag un profiad byrrach, fel yr eglurwyd uchod. Dylid nodi hefyd fod y Bil yn darparu ar gyfer cwrs addysg awyr agored breswyl unwaith. Gallai dweud ar wyneb y Bil mai dim ond unwaith y mae'r cwrs ar gael, ond wedyn dweud mewn canllawiau bod modd ei rannu, arwain at ddiffyg eglurder. Mae datgan yn benodol ar wyneb y Bil ei fod yn gwrs o addysg awyr agored breswyl y mae'n rhaid ei ddarparu unwaith, ond bod modd ei rannu, yn gwneud bwriad y polisi yn gliriach.

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i nodi ei bod yn rhaid i'r canllawiau nodi y darperir ar gyfer gofynion deietegol pob plentyn.

#### **Ymateb: Derbyn**

Rwy'n nodi ei bod yn ymddangos bod yr argymhelliad hwn mewn ymateb i un achlysur yr adroddwyd arno i'r Pwyllgor, a byddwn yn gobeithio ac yn disgwyl nad yw hon yn broblem ehangach.

Mae gan bobl sy'n archebu cyrsiau ddyletswydd gofal tuag at eu myfyrwyr a dylent fod yn gwirio y caiff gofynion deietegol eu bodloni. Mae'r rhan fwyaf (os nad pob un) o'r darparwyr sy'n cynnig bwyd yn gofyn am wybodaeth am ofynion deietegol ac alergeddau cyn unrhyw ymweliad.

Felly, er na fydd hyn o reidrwydd yn angenrheidiol, byddwn yn hapus i dderbyn yr argymhelliad hwn a chyflwyno'r gwelliant neu welliannau a awgrymir.

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i nodi ar wyneb y Bil nad yw'n orfodol i blant gymryd rhan yn y ddarpariaeth addysg awyr agored breswyl a gynigir o dan y Bil hwn.

#### **Ymateb: Derbyn**



Mae'r Bil yn gwneud darparu cwrs addysg awyr agored breswyl yn rhan orfodol o'r cwricwlwm. Felly, byddai'n orfodol i ysgolion ddarparu'r cwrs addysg awyr agored breswyl hwn, ond y bwriad yw na ddylid gorfodi plant i fynd ar gwrs o'r fath. Caiff hyn ei nodi yn y Memorandwm Esboniadol ac rwyf wedi codi'r pwynt hwn drwy gydol proses Cyfnod 1.

Ceir darpariaeth eisoes yn Neddf Cwricwlwm ac Asesu 2021 (Deddf 2021) a rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno sy'n galluogi penaethiaid ysgolion a gynhelir i benderfynu na ddylai darpariaethau Cwricwlwm i Gymru fod yn gymwys i blentyn neu ddisgybl. Felly, pe na bai plentyn yn dymuno cymryd rhan yn y cwrs addysg awyr agored breswyl a ddarperir o dan y Bil, gallai pennaeth yr ysgol wneud penderfyniad i'r perwyl hwn.

Ynghyd â hyn, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer dyroddi canllawiau o dan Adran 71A newydd i Ddeddf 2021, a "rhaid iddynt ddarparu nad yw addysg awyr agored breswyl yn orfodol i ddisgyblion ei mynychu". Rwy'n sylweddoli na all y canllawiau eu hunain newid effaith gyfreithiol y Bil sy'n gwneud hyn yn rhan orfodol o'r cwricwlwm. Y bwriad yw y byddai'r canllawiau'n nodi'n glir y dylai penaethiaid ddefnyddio eu pŵer o dan y Rheoliadau perthnasol i wneud penderfyniad o'r fath i eithrio plentyn neu ddisgybl o'r cwrs addysg awyr agored breswyl a ddarperir o dan y cwricwlwm.

Er nad wyf yn siŵr bod angen gwelliant i'r Bil o ystyried y mecanweithiau presennol sydd eisoes ar waith, byddwn yn hapus i archwilio a ellid cyflwyno gwelliant o'r fath yng Nghyfnod 2 pe bai hynny'n gwneud y bwriad yn fwy eglur, a'i effaith yn haws ei reoli'n ymarferol.

**Argymhelliad 6.** Dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i roi effaith i welliannau arfaethedig Comisiynydd y Gymraeg, er mwyn sicrhau:

- bod digon o ddarpariaeth Gymraeg;
- bod darpariaeth addysg awyr agored breswyl yn cynnig cyfleoedd i bob plentyn ddysgu a chael profiadau drwy gyfrwng y Gymraeg; a
- bod yn rhaid i addysg awyr agored breswyl hybu dealltwriaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

**Ymateb: Derbyn yn rhannol.**

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cynnig tri gwelliant penodol i ddarpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â'r canllawiau y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu dyroddi. Mae'r darpariaethau hynny wedi'u nodi yn y Bil drwy fewnosod Adran 71A newydd yn Neddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Deddf 2021). Mae'r Comisiynydd yn galw am ddiwygio Adran 71A(3)(d) a (3)(e) arfaethedig, a mewnosod 71A(3)(f) newydd – felly byddai'r darpariaethau'n darllen fel a ganlyn:



“(3)(d) rhaid iddynt ddarparu bod pob darparwr addysg awyr agored breswyl yn gallu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg”

“(3)(e) yn unol â gofynion y cwricwlwm i Gymru, rhaid iddynt ddarparu bod addysg awyr agored breswyl yn cynnig cyfleoedd i bob disgybl ddysgu a chael profiadau trwy gyfrwng y Gymraeg”

“(3)(f) rhaid iddynt ddarparu bod addysg awyr agored breswyl yn hybu dealltwriaeth o’r Gymraeg a diwylliant Cymru”

Yn ystod Cyfnod 1 o’r Bil, rwyf wedi ymrwymo i gryfhau’r Bil lle bynnag y bo modd, a lle bo’n briodol, ac rwyf wedi rhoi ymrwymiad penodol i’r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn hynny o beth mewn perthynas â darpariaeth Gymraeg. Gyda hynny mewn golwg, byddwn yn hapus i dderbyn yr argymhelliad mewn perthynas â’r gwelliannau arfaethedig i (3)(e) a (3)(f) fel y’u nodir uchod.

Fodd bynnag, ni allaf dderbyn y gwelliant arfaethedig fel y’i nodir yn (3)(d) uchod.

Diben adran 71A newydd yw dyroddi canllawiau mewn cysylltiad ag addysg awyr agored breswyl a ddarperir yn unol â dyletswydd a osodir o dan y Ddeddf hon. Nid yw’r Bil yn gosod unrhyw ddyletswyddau ar ddarparwyr addysg awyr agored breswyl, ac felly nid yw’r canllawiau’n gymwys i ddarparwyr. At hynny, nid wyf yn ystyried y byddai byth yn briodol i ganllawiau nodi bod yn rhaid i ddarparwyr ‘allu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg’. Byddai gallu darparwyr i fodloni’r gofyniad hwn, yn fy marn i, yn mynd ymhell y tu hwnt i ddiben y canllawiau. Gallai hefyd effeithio ar fwriad y Bil, oherwydd y gallai arwain at sefyllfa lle byddai darparwyr nad ydynt yn gallu cynnig profiad drwy gyfrwng y Gymraeg yn gwrthod gwneud unrhyw gynnydd o gwbl. Byddai hynny, yn ei dro, yn cyfyngu ar gyfleoedd i blant gael addysg awyr agored breswyl.

**Argymhelliad 7.** Cyn dadl Cyfnod 1, dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol ddarparu manylion am sut y mae'n rhagweld y bydd olrhain y ddarpariaeth yn gweithio'n ymarferol.

### **Ymateb: Derbyn**

Wrth ddatblygu’r Memorandwm Esboniadol, fe wnaethom ni gynnal gwaith i asesu’r hyn a allai fod yn ofynnol o ran olrhain presenoldeb disgyblion ar ymweliadau addysg awyr agored preswyl.

Fel rhan o’r gwaith hwn, fe wnaethom ni gynnal trafodaethau gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys y Panel Ymgynghorwyr Addysg Awyr Agored (OEAP) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a gynghorodd y gallai olrhain ar ei ffurf symlaf gael ei integreiddio ym mhob cofnod disgybl sy’n cael ei rhoi ar y system rheoli gwybodaeth briodol. Byddai hyn yn gofyn am fewnbynnu maes ychwanegol i’r gronfa ddata cofnodion disgyblion. Mae hyn eisoes wedi’i amlinellu yn y Memorandwm Esboniadol.



Fel rwy'n ei ddeall, mae'r cofnod disgybl hwn yn dilyn disgybl drwy ei fywyd ysgol, ac felly byddai'n dilyn disgybl pe bai'n symud o un ysgol i ysgol arall. Byddai'r cofnod disgybl hwn – drwy gynnwys y maes newydd – yn datgan a yw'r disgybl hwnnw wedi manteisio ar ei brofiad addysg awyr agored breswyl 'am ddim'.

Felly, ar sail y trafodaethau hynny, dyna sut rwy'n rhagweld y caiff disgyblion eu holrhain yn ymarferol, yn seiliedig ar y Bil fel y'i cyflwynwyd.

Pe bai'r Bil yn symud yn ei flaen, ac os caiff ei ddiwygio i newid y ffordd y caiff addysg awyr agored breswyl ei darparu, efallai y bydd angen ailedrych ar y mecanwaith olrhain. Byddwn yn hapus i wneud gwaith pellach i ddadansoddi dulliau amgen o olrhain os bydd rhaid.

**Argymhelliad 8:** Cyn dadl Cyfnod 1, dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol ddarparu enghreifftiau lle mae deddfwriaeth wedi gosod gofyniad ar Weinidogion i ariannu math penodol iawn o weithgaredd.

#### **Ymateb: Gwrthod**

Rwy'n nodi'r anhawster y cafodd y Pwyllgor o ran canfod enghreifftiau tebyg mewn deddfwriaeth i Adran 2 o'r Bil 'Cyllid ar gyfer addysg awyr agored breswyl'.

Wrth ddatblygu'r Bil, roeddwn yn ymwybodol bod hwn yn ddefnydd hynod anarferol o ddeddfwriaeth. Gan mai diben cyfan y Bil (a'm cynnig ar ddechrau un y broses) oedd sicrhau y byddai addysg awyr agored breswyl agored yn cael ei darparu o leiaf unwaith **am ddim**, roedd angen darpariaeth o'r fath i sicrhau bod y Bil yn bodloni'r amcan hwnnw. Rwyf hefyd yn ymwybodol iawn o'r pwysau ariannol ar ysgolion ac awdurdodau lleol ac nid wyf yn bwriadu i gostau'r Bil gael eu talu o gyllidebau presennol darparwyr addysg. Mae Adran 2 hefyd yn adlewyrchu'r amcan hwn.

Ni chafodd y gwaith o ddrafftio Adran 2 o'r Bil ei seilio ar unrhyw ddeddfwriaeth bresennol, ac felly nid oes gennyf enghreifftiau o ddeddfwriaeth gyfatebol i'w darparu i'r Pwyllgor.





Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS  
Y Llywydd

[Llywydd@senedd.cymru](mailto:Llywydd@senedd.cymru)

16 Ebrill 2024

Annwyl Llywydd

Cyflwynodd Llywodraeth y DU y Bil Tybaco a Fêps (y Bil) i Dŷ'r Cyffredin ar 20 Mawrth 2024.

Caiff y Bil ei gefnogi gan bedair Llywodraeth y DU ac mae'n ymdrin â materion iechyd y cyhoedd sy'n ymwneud â rheoli tybaco a dyfeisiau fepio. Disgwylir y bydd y Bil i raddau helaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. O ganlyniad i ddatblygiad cyflym y Bil, a chymhlethdod ac ehangder y darpariaethau, nid yw wedi bod yn bosibl i'm swyddogion gwblhau'r dadansoddiad manwl sydd ei angen o fewn y terfyn pythefnos arferol a nodir yn y Rheolau Sefydlog. Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod y Senedd yn gallu ystyried y ddeddfwriaeth iechyd y cyhoedd bwysig hon yn llawn ac rwy'n bwriadu gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ddechrau mis Mai.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol, Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Chadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol  
Cabinet Secretary for Health and Social Care

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Ein cyf/Our ref MA/FM/0609/24

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

16 Ebrill 2024

Annwyl Gadeirydd

Rwy'n ymateb i'r llythyr dyddiedig 15 Mawrth gan y Pwyllgor at y cyn Brif Weinidog ynglŷn â'i ymateb i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), a osodwyd mewn perthynas â'r Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol ("y Bil").

Rwyf wedi ystyried y cwestiynau a ofynnwyd ac mae fy ymateb i'r rhain yn Atodiad 1.

Fel y mae'r Pwyllgor eisoes yn gwybod, ers i'r Bil gael ei gyflwyno, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynnal trafodaethau â Llywodraeth y DU, ar lefel Gweinidogion a Swyddogion, ynghylch goblygiadau nifer o ddarpariaethau yn y Bil o ran datganoli. Drwy gydol y trafodaethau hyn, roedd Llywodraeth Cymru yn gofyn am bwerau i Weinidogion Cymru, yn ogystal ag esemptiad, ar draws pedair rhan wahanol o'r Bil fel a ganlyn:

- Rhan 1, Diogelu Data – cymal 41 Hysbysiadau Cyfweliadau;
- Rhan 2, Porth Gwybodaeth Gwasanaethau Dilysu Digidol (DVSau) – cymal 78 Cod Ymarfer ynghylch datgelu gwybodaeth;
- Rhan 3, Data am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau – cymalau 85–107;
- Rhan 4, Darpariaeth arall ynghylch Gwybodaeth Ddigidol – cymal 126 Gweithredu cytundebau rhannu gwybodaeth at ddibenion gorfodi'r gyfraith, cymal 127 Ystyr "appropriate national authority" ("awdurdod cenedlaethol priodol"), a Rheoliadau cymal 151; a
- Rhan 4, Darpariaeth arall ynghylch Gwybodaeth Ddigidol – cymalau 138–141 Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol.

Ein safbwynt, fel y'i nodir yn y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar gyfer y Bil hyd yma, yw na ellid argymhell rhoi cydsyniad ar gyfer nifer o ddarpariaethau'r Bil tra bydd y trafodaethau hyn yn mynd rhagddynt.

Mae ein trafodaethau bellach wedi dod i ben. Cawsom "becyn terfynol" o welliannau arfaethedig gan Lywodraeth y DU y mae'n dweud y byddai'n fodlon eu gwneud pe bai Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn ddigonol i argymhell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru)  
[Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales](mailto:Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 42

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ar gyfer y Bil. Ar ôl ystyried y pecyn yn ofalus, gwnaethom hysbysu Llywodraeth y DU ar 9 Ebrill nad oedd y pecyn arfaethedig o welliannau yn ddigonol ac, felly, ni fyddai Llywodraeth Cymru yn argymhell rhoi cydsyniad ar gyfer y Bil.

Er bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r bwriad polisi y tu ôl i lawer o'r Bil, mae'r gwelliannau arfaethedig yn cynrychioli diffyg symud sylweddol ar ran Llywodraeth y DU y tu hwnt i gynnig darpariaethau ymgynghori. Roedd hyn er gwaethaf y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir drwy gydol taith y Bil fod cynnwys unrhyw fath o ddarpariaeth ymgynghori mewn meysydd yr ydym yn ystyried eu bod wedi'u datganoli, neu greu pwerau cydredol heb fecanwaith cydsynio, yn groes i'n hegwyddorion mewn perthynas â Biliau'r DU, yn ogystal â gwrthwynebiad cyson y Senedd i ddulliau tebyg.

O ran darpariaethau'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol (NUAR) newydd, gwnaethom ailadrodd bod dileu un o swyddogaethau gweithredol datganoledig Gweinidogion Cymru yn gwbl amhriodol. Yn ogystal, gwnaethom bwysleisio na ddylai cyflwyno'r gwelliant a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU, a fyddai'n sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cadw eu pwerau presennol i wneud rheoliadau o dan adran 79 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991, fod yn amodol arnom ni yn cytuno i unrhyw un o'r diwygiadau eraill a gynigiwyd.


Mae Atodiad 2 yn rhoi rhagor o fanylion am y darpariaethau dan sylw, gan roi manylion y gwelliannau y gwnaethom ofyn i Lywodraeth y DU amdanynt, a'r gwelliannau a gynigiwyd ganddi mewn ymateb.

Rydym wedi gofyn i Lywodraeth y DU ailystyried ei safbwynt ar y pryderon yr ydym wedi'u codi ynghylch y Bil, er mwyn inni ddod o hyd i ddatrysiad boddhaol a fyddai'n ein galluogi i argymhell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad i'r Bil. Fodd bynnag, i sicrhau eglurder, ni fydd Llywodraeth Cymru yn argymhell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad i'r Bil hwn fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd.

Byddwn yn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) pellach mewn perthynas â gwelliannau i'r Bil a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 13 Mawrth. Bydd y Memorandwm hwn hefyd yn dweud na fydd Llywodraeth Cymru yn argymhell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad i'r Bil hwn fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd.

Byddaf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn gywir



**Jeremy Miles AS/MS**

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg  
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Welsh Language

## Atodiad 1

**Cwestiwn 1 a)** A fyddech cystal â rhannu â ni yr ohebiaeth a ddaeth i law ar 6 Chwefror 2024 gan Julia Lopez AS, y Gweinidog Gwladol dros Ddata a Seilwaith Digidol.

**Ymateb:**

Rydym wedi gofyn am gytundeb gan Lywodraeth y DU i rannu copi o'r ohebiaeth hon ac rydym yn aros am ateb.

**Cwestiwn 1 b)** Byddem yn croesawu eich barn ar y gwahanol feini prawf a dulliau gweithredu y mae'n ymddangos eu bod yn cael eu cymhwyso gan Reolau Sefydlog Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r Senedd wrth asesu a oes angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar ddarpariaethau Bil.

**Ymateb:** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gonfensiwn Sewel fel yr adlewyrchir yn a107(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Wrth sicrhau cydsyniad deddfwriaethol y Senedd, byddwn yn parhau i gydymffurfio â Rheolau Sefydlog y Senedd.

**Cwestiwn 2)** A fyddech cystal â darparu manylion unrhyw oblygiadau datganoledig o ran y pwerau gwneud rheoliadau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Trysorlys yn Rhan 3 o'r Bil.

**Ymateb:**

Gellir gweld crynodeb o oblygiadau Rhan 3 o'r Bil o ran datganoli yn Atodiad 2.

**Cwestiwn 3 a)** A fyddech cystal â rhannu â ni'r ohebiaeth a anfonwyd ar 23 Ionawr 2024 at y Gweinidog Gwladol dros Ddata a Seilwaith Digidol.

**Ymateb:**

Rydym wedi gofyn am gytundeb gan Lywodraeth y DU i rannu copi o'r ohebiaeth hon ac rydym yn aros am ateb.

**Cwestiwn 3 b)** Yn ei llythyr ar 6 Chwefror 2024, a wnaeth y Gweinidog Gwladol roi sylw i bryderon Llywodraeth Cymru ynghylch darpariaethau NUAR? Os na, a roddwyd sylw i'r pryderon mewn gohebiaeth ddilynol (h.y. y llythyr ar 1 Mawrth 2024 y cyfeirir ato yn yr ymatebion i argymhellion 8 a 10) neu a yw Llywodraeth Cymru yn dal i aros am ymateb ar y mater hwn?

**Ymateb:**

Ni wnaeth y Gweinidog Gwladol roi sylw i'n pryderon ynghylch darpariaethau NUAR yn ei gohebiaeth ar 6 Chwefror na 1 Mawrth.

Cafodd nifer o welliannau posibl i'r darpariaethau NUAR eu cynnwys yn y pecyn o welliannau arfaethedig a dderbyniwyd gan Lywodraeth y DU ym mis Chwefror. Mae rhagor o fanylion ar gael yn Atodiad 2.

**Cwestiwn 4)** Mewn ymateb i argymhelliad 8 ac argymhelliad 10 yn ein hadroddiad ar Femorandwm Rhif 3, rydych yn cyfeirio at yr ohebiaeth a ddaeth i law gan y Gweinidog Gwladol ar 1 Mawrth 2024 mewn perthynas â Llywodraeth y DU yn gwrthod rhannu copi o'i hasesiad risg â Llywodraeth Cymru ar effaith bosibl y Bil ar benderfyniad y DU ar ddigonolrwydd data'r UE, ac mewn perthynas ag ymgysylltiad Llywodraeth y DU â'r Comisiwn Ewropeaidd ar y Bil. A fyddech cystal â rhannu'r ohebiaeth a ddaeth i law ar 1 Mawrth 2024 â ni.



**Ymateb:**

Rydym wedi gofyn am gytundeb gan Lywodraeth y DU i rannu copi o'r ohebiaeth hon ac rydym yn aros am ateb.

**Atodiad 2****Rhan 1, Diogelu Data – cymal 41: Hysbysiadau Cyfweliadau**

Mae Rhan 1 o'r Bil, cymal 41: Hysbysiadau Cyfweliadau (cymal 38 fel y'i cyflwynwyd) yn mewnosod darpariaethau newydd yn Neddf Diogelu Data 2018 sy'n rhoi pwerau i'r Comisiynydd Gwybodaeth i'w gwneud yn ofynnol i bersonau penodol ddod i gyfweliad, lle mae amheuaeth o ddiffyg cydymffurfio â gofynion penodol Deddf Diogelu Data 2018. Ar hyn o bryd mae'r ddarpariaeth hon yn cynnwys esemptiad ar gyfer Ofsted (y Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau), i'r graddau y mae'n rheolydd neu'n brosesydd mewn perthynas â gwybodaeth a brosesir at ddibenion swyddogaethau y gellir eu harfer gan Brif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau yn rhinwedd adran 5(1)(a) o Ddeddf Safonau Gofal 2000.

*Gwelliannau y gofynnwyd amdanynt gan Lywodraeth Cymru*

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i esemptiad tebyg gael ei roi i Weinidogion Cymru fel y Rheoleiddiwr ar gyfer y gwasanaethau cyfatebol yng Nghymru.

*Diwygiadau a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU*

Cynigiodd Llywodraeth y DU ddileu esemptiad Ofsted o bwerau hysbysiad cyfweliadau y Comisiynydd Gwybodaeth o dan gymal 41. Hefyd, cynigiwyd bod esemptiad Ofsted o bwerau hysbysiadau asesu'r Comisiynydd Gwybodaeth o dan adran 147(6) o Ddeddf Diogelu Data 2018 hefyd yn cael ei ddileu. Deallir bod Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, yr Adran Addysg ac Ofsted yn cytuno nad oes angen yr esemptiad a'u bod yn fodlon iddo gael ei ddileu.

*Safbwynt Llywodraeth Cymru*

Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon ar y gwelliant arfaethedig hwn am ei fod yn mynd i'r afael â'n pryderon ynghylch sicrhau bod ein polisi ar gyfer Cymru yn gydradd.

**Rhan 2, Gwasanaethau Dilysu Digidol: Porth Gwybodaeth – cymal 78: Cod Ymarfer ynghylch datgelu gwybodaeth**

Mae Rhan 2 o'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer Gwasanaethau Dilysu Digidol (DVSau). Gyda'i gilydd, mae'r cymalau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch rhannu gwybodaeth at ddibenion darparu DVSau, gan roi pŵer caniatol i awdurdodau cyhoeddus ddarparu gwybodaeth bersonol am unigolion (yn amodol ar gydsyniad) i sefydliadau sy'n darparu DVSau. Mae hyn yn cynnwys:

- "Fframwaith ymddiriedaeth ar gyfer gwasanaethau DVSau sy'n cynnwys rheolau sy'n ymwneud â darparu DVSau (cymal 53),
- cofrestr o sefydliadau sy'n darparu DVSau (cymalau 63–73);
- Nod ymddiriedaeth i'w ddefnyddio gan sefydliadau cofrestredig (cymal 79); a
- Phorth gwybodaeth i alluogi awdurdodau cyhoeddus i ddatgelu gwybodaeth bersonol i sefydliadau cofrestredig (cymal 74) a Chod Ymarfer statudol cysylltiedig (cymal 78).

Mae cymal 74 (cymal 54 fel y'i cyflwynwyd), sy'n sefydlu porth gwybodaeth newydd, yn rhoi pŵer caniatol i awdurdodau cyhoeddus i ddarparu gwybodaeth bersonol am unigolion (yn amodol ar ganiatâd) i ddarparwyr gwasanaethau adnabod sy'n darparu DVSau sydd â nod

ymddiriedaeth. Byddai'r pŵer caniataol hwn yn gymwys i Awdurdodau Cyhoeddus yng Nghymru.

Mae cymal 78 (cymal 56 fel y'i cyflwynwyd) yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi Cod Ymarfer ynghylch datgelu gwybodaeth o dan gymal 74. Mae'r cymal yn nodi bod yn rhaid i'r Cod fod yn gyson ag adran 125(4) o Ddeddf Diogelu Data 2018 a'i bod yn rhaid i Awdurdodau Cyhoeddus sy'n rhannu data ar gyfer DVSAu roi sylw i'r Cod. Byddai'n rhaid i Awdurdodau Cyhoeddus yng Nghymru roi sylw i'r Cod Ymarfer hwn pan fyddant yn rhannu data drwy ddefnyddio'r pŵer caniataol o dan gymal 74.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai diben Rhan 2 yw hwyluso darparu DVSAu a gwella'r gwasanaeth a gynigir i ddefnyddwyr, a bod y cymalau hyn yn ymwneud â materion datganoledig, sef gwasanaethau cyhoeddus, economi a busnes, ac felly yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Dadansoddiad Llywodraeth y DU wedi'i ddiweddarau o Ran 2 mewn perthynas â datganoli yw eu bod yn ystyried y dylid gofyn am gydsyniad ar gyfer cymal 74 a chymal 78(3).

#### *Gwelliannau y gofynnwyd amdanynt gan Lywodraeth Cymru*

Gofynnodd Llywodraeth Cymru am bwerau cydredol plws ynghyd ag eithriad mewn perthynas â chymal 78. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion y DU gael cydsyniad Gweinidogion Cymru i unrhyw God Ymarfer ar gyfer y DU gyfan fod yn gymwys i Gymru, wrth hefyd roi'r pŵer i Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi Cod Ymarfer penodol i Gymru, pe baem yn dymuno gwneud hynny yn y dyfodol.

Mabwysiadwyd y dull hwn yn unol â'n hegwyddorion cyfansoddiadol, a chan gydnabod rhinweddau alinio â'r DU.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi polisi Llywodraeth y DU yn y maes hwn ac mae'n debygol iawn y byddai Cod Ymarfer y DU yn cyd-fynd â pholisi Cymru yn y maes hwn. Fodd bynnag, byddai pwerau cydredol plws ynghyd ag eithriad yn galluogi Gweinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi Cod Ymarfer penodol i Gymru, ped ystyrir bod angen gwneud hyn yn y dyfodol.

#### *Diwygiadau a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU*

Cynigiodd Llywodraeth y DU ddiwygio Cymal 78 o'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru wrth baratoi neu ddiwygio'r Cod Ymarfer.

#### *Safbwynt Llywodraeth Cymru*

Nid yw Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y dull uchod yn adlewyrchu egwyddorion datganoli yn addas, ac rydym yn parhau i fod o'r farn bod ein cais am bwerau cydredol plws yn briodol.

### **Rhan 3, Data am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau – cymalau 85–107**

Mae Rhan 3, cymalau 85–107 (cymalau 61–77 fel y'u cyflwynwyd) yn gwneud darpariaeth ynghylch rhannu gwybodaeth am gwsmeriaid a busnesau i wella cludadwyedd data (Data Clyfar). Mae'r cymalau hyn yn caniatáu ar gyfer rhannu data'n ddiogel, ar gais y cwsmer, â darparwyr trydydd parti awdurdodedig (ATP). Byddai'r rhain wedyn yn defnyddio'r data i ddarparu gwasanaethau i'r cwsmer, gan gynnwys newid cyfrif yn awtomatig, cymharu'r farchnad yn benodol i'r cwsmer, a gwasanaethau rheoli cyfrifon. Gall y cwsmer fod yn ddefnyddiwr neu'n fusnes.

Mae'r cymalau yn Rhan 3 yn cynnwys pwerau gwneud rheoliadau a fydd yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Trysorlys i'w gwneud yn ofynnol i gyflenwyr (fel y'u nodir yn y rheoliadau), a phersonau perthnasol eraill, rannu data cwsmeriaid a data busnesau, i gyflwyno cynlluniau Data Clyfar mewn marchnadoedd ar draws yr economi.

Rydym yn parhau i fod o'r farn bod y cymalau yn Rhan 3 o'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch rhannu gwybodaeth i wella cludadwyedd data er mwyn wella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i'r cwsmer ac i fusnesau. Felly, mae'r diben yn ymwneud â busnes a'r economi ac felly mae'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, heb amharu ar unrhyw un o'r materion a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (GoWA).

Er bod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y cymalau hyn ym marn Llywodraeth y DU, mae'r cymalau hyn wedi'u datganoli i'r graddau y mae'r cwsmer yn fusnes ac nid yn unigolyn, ac felly mae angen cydsyniad deddfwriaethol ond mae'n gyfyngedig yn hyn o beth. Ym marn Llywodraeth y DU, mae gwerthu a chyflenwi nwyddau a gwasanaethau i ddefnyddwyr, sy'n fater a gedwir yn ôl, yn gymwys (paragraff 72(a) o Atodlen 7A i GoWA).

#### *Gwelliannau y gofynnwyd amdanynt gan Lywodraeth Cymru*

Gofynnwyd am bwerau cydredol plws mewn perthynas â Rhan 3 i roi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn eu galluogi i sefydlu Cynlluniau Data Clyfar penodol i'r sector yma yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweld budd ymarferol i alinio rheoleiddiol ledled y DU yn y maes hwn, ac rydym o'r farn y byddai mynediad at gynlluniau ledled y DU o fudd i unigolion sy'n byw yng Nghymru a busnesau yng Nghymru hefyd. Deallir mai ffocws cychwynnol Llywodraeth y DU yw sectorau mawr, gan gynnwys syniadau traws-sector sy'n ymwneud â gwasanaethau ariannol, ynni, manwerthu, trafndiaeth a phrynu cartrefi.

Byddai cael pwerau i wneud rheoliadau cydredol yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar sut mae Cynlluniau Data Clyfar yn cael eu darparu yng Nghymru. Byddai hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno cynlluniau mewn sectorau lle nad oes gan Lywodraeth y DU unrhyw gynlluniau, neu mewn sectorau sy'n cael eu hystyried gan Lywodraeth y DU ond sy'n flaenoriaeth isel.

#### *Diwygiadau a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU*

Y gwelliannau a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU yw rhoi pwerau cydredol i Weinidogion Cymru i greu rheoliadau mewn perthynas â chwsmeriaid busnes yn unig, gyda sectorau a ystyrir eu bod wedi'u cadw'n ôl a Data am Ddefnyddwyr (fel y'u diffinnir yng nghymal 85(2)) y tu allan i'r cwmpas.

Fel rhan o hyn, byddai gwelliant yn cael ei gyflwyno a fyddai'n rhoi pwerau i Weinidogion y DU i atal rheoliadau ar gyfer Cymru mewn maes neu sector lle mae Llywodraeth y DU eisoes wedi cyflwyno rheoliadau Data Clyfar, a hefyd pwerau i ddiwygio neu ddiddymu rheoliadau ar gyfer Cymru sydd wedi'u creu gan ddefnyddio'r pwerau hyn. Byddai hyn yn golygu, pan fo cynllun ar waith ar gyfer Cymru a bod Llywodraeth y DU yn bwriadu gweithredu cynllun tebyg ar gyfer y DU gyfan, y byddai gan Lywodraeth y DU y pŵer i ddiwygio rheoliadau Cymru i adlewyrchu'r rheoliadau ar gyfer y DU gyfan. Hefyd, pan fo cynllun ar waith ar gyfer y DU, caiff rheoliadau Llywodraeth y DU osod cyfyngiadau ar allu Llywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun tebyg.

Byddai mecanwaith ymgynghori hefyd yn cael ei roi ar Weinidogion Cymru a Gweinidogion y DU, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt ymgynghori â'u cymheiriaid Gweinidogol cyn gweithredu rheoliadau Data Clyfar.

#### *Safbwynt Llywodraeth Cymru*

Er bod potensial i Lywodraeth Cymru sefydlu cynlluniau Data Clyfar ystyrion o fewn y paramedrau a nodir yn y gwelliannau arfaethedig, er mwyn gwireddu'r manteision llawn y gall cynlluniau o'r fath eu darparu, dylid rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i sefydlu cynlluniau sy'n cynnwys rhannu data am fusnes a data am ddefnyddwyr.

Mae creu pwerau cydredol (heb fecanweithiau cydsynio) yn groes i'n hegwyddorion ac nad yw'n parchu datganoli .

Pe bai Llywodraeth y DU yn gallu diwygio neu ddiddymu rheoliadau Llywodraeth Cymru wedi'u creu drwy ddefnyddio'r pwerau Data Clyfar, gallai hyn arwain at broblemau, gan y gallai hyn, i bob pwrpas, gau i lawr gynllun wedi'i sefydlu gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, ystyrir ei bod yn debygol y byddai unrhyw reoliadau yng Nghymru yn cyd-fynd yn agos â rhai Llywodraeth y DU, gan leihau'r risg y byddai cynllun o'r fath yn cael ei gau i lawr yn gyfan gwbl.

#### **Rhan 4, Darpariaeth arall ar gyfer Gwybodaeth Ddigidol – cymal 126: Gweithredu cytundebau rhannu gwybodaeth at ddibenion gorfodi'r gyfraith, cymal 127: Ystyr "appropriate national authority" ("awdurdod cenedlaethol priodol"), a chymal 151: Rheoliadau**

Mae cymal 126 yn rhoi pwerau i'r "awdurdod cenedlaethol priodol" i wneud rheoliadau at ddiben gweithredu cytundeb rhyngwladol sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth er mwyn gorfodi'r gyfraith (I-LEAP). Mae cytundebau rhannu gwybodaeth newydd at ddibenion gorfodi cyfraith rhyngwladol yn destun gweithdrefnau cadarnhau cytuniad arferol a byddent yn cael eu gwneud drwy'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

Mae cymal 127 yn nod mai'r "awdurdod cenedlaethol priodol" y caniateir i reoliadau gael eu gwneud drwyddo o dan gymal 126 o'r Bil hwn yw'r Ysgrifennydd Gwladol neu, pan fo darpariaeth yn dod o fewn cymhwysedd datganoledig, Weinidogion yr Alban neu Weinidogion Cymru. Mae hefyd yn dweud na ddylai Rheoliadau wedi'u gwneud gan Weinidogion Cymru gynnwys ond darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Mae cymal 151 yn diffinio'r pŵer rheoleiddio a roddir gan gymal 126.

Mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaeth ar gyfer erlyn troseddau a chyflwyno cosbau troseddol mewn perthynas ag ystod eang o faterion datganoledig, er enghraifft, troseddau amgylcheddol neu fywyd gwyllt.

Mae Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y cymalau hyn.

#### *Gwelliannau y gofynnwyd amdanynt gan Lywodraeth Cymru*

Gofynnwyd am bwerau cydredol plws yn wreiddiol mewn perthynas â chymal 126: Gweithredu cytundebau rhannu gwybodaeth at ddibenion gorfodi'r gyfraith (cymal 93 fel y'i cyflwynwyd). O ganlyniad, diwygiwyd y Bil i alluogi Gweinidogion Cymru a Gweinidogion yr Alban i wneud rheoliadau pan fo darpariaeth yn dod o fewn cymhwysedd datganoledig. Roedd hyn hefyd yn cynnwys eithriad i ddiwygio Atodlen 7B i GoWA, gan alluogi'r Senedd i ddiwygio'r ddarpariaeth yn y dyfodol.

Fodd bynnag, mae'r gwelliant a wnaed ond yn rhoi pŵer cydredol i Weinidogion Cymru, nid pŵer cydredol plws. Mae hyn yn golygu nad yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru roi cydsyniad cyn y gall yr Ysgrifennydd Gwladol arfer ei bŵer i wneud rheoliadau o dan gymal 151, hyd yn oed mewn meysydd lle gallai Gweinidogion Cymru arfer y pŵer hwn.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i fecanwaith cydsynio gael ei gynnwys hefyd er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn parchu datganoli.

#### *Diwygiadau a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU*

Byddai'r gwelliant a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU yn darparu mecanwaith ymgynghori. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan gymal 126, i'r graddau y byddai'r rheoliadau hynny'n cynnwys darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

#### *Safbwynt Llywodraeth Cymru*

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r bwriad polisi y tu ôl i gymal 126, gan fod cymryd rhan mewn cytundebau rhannu data rhyngwladol yn chwarae rhan bwysig wrth atal troseddau, yn

enwedig troseddu cyfundrefnol. Fodd bynnag, mae gorfodi'r gyfraith hefyd yn cynnwys erlyn troseddau a gweithredu cosbau troseddol lle mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol mewn amrywiaeth o feysydd datganoledig.

Mae defnyddio pwerau cydredol heb fecanwaith cydsynio wedi cael ei wrthwynebu'n gyson gan Lywodraeth Cymru a'r Senedd.

#### **Rhan 4, Darpariaeth arall ynghylch Gwybodaeth Ddigidol – cymalau 138–141: Cofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol**

Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd yn y Cyfnod Adrodd yn cyflwyno cymalau newydd yn y Bil sy'n gwneud diwygiadau i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (NRSWA 1991) ac yn mewnosod Rhan ac Atodlen newydd ynddi. Maent yn ei gwneud yn ofynnol cadw gofrestr o wybodaeth sy'n ymwneud â chyfarpar ar strydoedd, a bod y gofrestr honno'n cael ei galw'n Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol (NUAR), ac maent yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â hynny.

Mae'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol (NUAR), a ddatblygwyd gan y Comisiwn Geo-ofodol (rhan o'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg), yn fap digidol o bibellau a cheblau tanddaearol a fydd yn gwella'n sylweddol y ffordd y mae cyrff a diwydiant ledled y DU yn gosod, yn cynnal, yn gweithredu ac yn atgyweirio seilwaith tanddaearol.

Y darpariaethau perthnasol yw:

- *Cymal 138: Cofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol* yn cyflwyno Rhan 3A newydd o NRSWA 1991 sy'n ymdrin â manylion y gofrestr arfaethedig. Mae'n cynnwys sicrhau bod yr wybodaeth sydd ynddi ar gael, ffurf y gofrestr, ffioedd a darparu gwybodaeth gan ymgymerywyr. Mae'r rheoliadau sydd i'w gwneud o dan Ran 3A i'w gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ac mae'n rhaid iddo ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud hynny.
- *Atodlen 13: Cofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol: cosbau ariannol* – yn mewnosod Atodlen 5A newydd yn NRSWA 1991 sy'n gwneud darpariaeth ynghylch gosod cosbau ariannol mewn perthynas â gofynion yn Rhan 3A newydd o'r Ddeddf honno.
- *Cymal 139: Gwybodaeth mewn perthynas â chyfarpar* – yn diwygio NRSWA 1991 i osod dyletswyddau newydd ar ymgymerywyr i gadw cofnodion a rhannu gwybodaeth am gyfarpar ar strydoedd; ac yn gwneud diwygiadau yn ganlyniadol i'r newidiadau hynny. Mae hyn hefyd yn rhoi pwerau rheoleiddio i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 79 ac 80 diwygiedig o NRSWA 1991 ac mae'n dweud bod rhaid ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o'r fath.
- *Cymal 140: Ymgynghoriad cyn cychwyn* – yn nodi y gellir bodloni'r gofyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori o dan ddarpariaeth a fewnosodir yn NRSWA 1991 (gan y cymalau newydd uchod) drwy ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn neu ar ôl i'r ddarpariaeth ddod i rym.
- *Cymal 141: Trosglwyddo swyddogaethau penodol i'r Ysgrifennydd Gwladol* – yn darparu bod pwerau penodol i wneud rheoliadau o dan adran 79 o NRSWA 1991, i'r graddau y gellir eu gweithredu mewn perthynas â Chymru, yn cael eu trosglwyddo o Weinidogion Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol; ac yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â rheoliadau a wnaed eisoes o dan y pwerau hynny.

Mae gan Weinidogion Cymru gymhwysedd gweithredol mewn perthynas ag NRSWA 1991 (ac eithrio adran 167(3)) yn rhinwedd erthygl 2 ac Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999/672.

Nid oes unrhyw faterion a gedwir yn ôl perthnasol yn Atodlen 7A i GoWA wedi cael eu nodi, a barn Llywodraeth Cymru yw bod Llywodraeth y DU yn deddfu mewn perthynas â materion datganoledig. Mae Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad deddfwriaethol.

#### *Gwelliannau y gofynnwyd amdanynt gan Lywodraeth Cymru*

Mae Llywodraeth Cymru wedi codi nifer o bryderon ynghylch y darpariaethau NUAR newydd, ar lefel Gweinidogion a swyddogion, ers iddynt gael eu cyflwyno ym mis Tachwedd.

Yn benodol, codwyd pryderon ynghylch yr effaith ar bwerau presennol y Senedd lle, o dan gymal 141, byddai pwerau penodol i wneud rheoliadau o dan adran 79 o NRSWA 1991 yn cael eu trosglwyddo o Weinidogion Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae Gweinidogion Cymru wedi arfer eu pwerau o dan adran 79 o NRSWA 1991 ac mae ffurf y cofnodion a ragnodir, a'r eithriadau a ragnodir ar gyfer cofnodi lleoliad, yn gyson â'r rhai a nodir yn y rheoliadau sy'n gymwys i Loegr.

Yn ogystal, nid yw'r diwygiadau yn y Bil i adran 79 o NRSWA 1991 yn nodi bod y "cofnod o wybodaeth" i'w ddefnyddio neu ei gofnodi'n unig at ddibenion yr NUAR. Nid oes unrhyw beth ychwaith i ddangos na ellir defnyddio'r cofnodion hyn at ddibenion eraill y tu hwnt i gylch gwaith yr NUAR. Mae hyn yn golygu, er bod y cofnod o wybodaeth yn hanfodol i'r NUAR, gallai unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan eu pwerau presennol fod â diben y tu hwnt i ddiben yr NUAR. Mae hyn, unwaith eto, yn awgrymu y byddai dileu pwerau Gweinidogion Cymru yn ddull anghymesur.

Er bod mecanwaith "ymgyngori" wedi'i gynnwys yn y narpariaethau NUAR, nid yw hyn yn gosod unrhyw ymrwymiad rhwymol ar Lywodraeth y DU i ystyried ein barn yn dilyn ymgynghoriad ac nid yw'n adlewyrchu datganoli yn briodol. Nid ystyrir bod hyn yn dderbyniol yn gyfansoddiadol ac ni all wneud iawn am ddileu y pwerau sydd eisoes gan Weinidogion Cymru.

Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch a fyddai'r darpariaethau hyn yn effeithio'n negyddol ar y gallu i reoli ein data ein hunain yng Nghymru, lle maent yn darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol gadw'r data sydd yn y gofrestr wybodaeth. Ar hyn o bryd mae gan gyrff yng Nghymru fynediad at ddata o'r fath ac mae'n bwysig cadw'r hawl i gael fynediad at y data a gwneud newidiadau iddo, yn ôl yr angen.

#### *Gwelliannau a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU*

Cynigiodd Llywodraeth y DU welliant i gymal 141 i ganiatáu i bwerau i wneud rheoliadau o dan adran 79 a'r agweddau nad ydynt yn gysylltiedig â'r NUAR o adran 80 o NRSWA 1991 gael eu harfer ar yr un pryd gan Weinidogion Cymru a Gweinidogion y DU. Byddai hyn yn golygu bod Gweinidogion Cymru yn cadw eu pwerau presennol o dan NRSWA 1991 ac y byddent yn gallu gwneud rheoliadau o dan y darpariaethau presennol pe baent yn dymuno gwneud hynny. Yn ogystal, pe bai Gweinidogion Cymru yn dymuno disodli'r gwasanaeth NUAR yn y dyfodol drwy sefydlu eu gwasanaeth eu hunain wedi ariannu, byddent yn gallu gwneud hynny pe bai'r Senedd yn pasio deddfwriaeth sylfaenol.

O dan y diwygiadau arfaethedig, ni fyddai'r pwerau newydd i wneud rheoliadau sy'n ymwneud â'r gwasanaeth NUAR (o hyd) ond yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol gan eu bod yn ymwneud â'r NUAR yn unig. Byddai'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru a Gweinidogion Gogledd Iwerddon cyn i reoliadau gael eu gosod.

#### *Barn Llywodraeth Cymru*

Mae tynnu swyddogaeth weithredol ddatganoledig oddi wrth Weinidogion Cymru yn mynd yn hollol groes i ddatganoli. Ni ddylai peidio â chyflwyno'r gwelliant a fyddai'n sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cadw eu pwerau rheoleiddio presennol fod yn opsiwn.

Nid yw'r mecanwaith ymgynghori a gynigir mewn perthynas â'r pwerau penodol i wneud rheoliadau sy'n ymwneud â gwasanaeth NUAR yn rhoi'r un mesurau diogelu cyfansoddiadol

neu ddeddfwriaethol â mecanweithiau cydsynio. Mae'r problemau mewn perthynas â phwerau cydredol yr un mor berthnasol yn y maes hwn.

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 9

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon